TAG UG

cbac
wjec

TAG UG CBAC

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

## GEIRFA ALLWEDDOL

Addysgu o 2016




Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| UNED 1: CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O GREFYDD | |
| OPSIWN A: CRISTNOGAETH | 3 |
| OPSIWN B: ISLAM | 6 |
| OPSIWN C: IDDEWIAETH | 8 |
| OPSIWN D: BWDHAETH | 11 |
| OPSIWN E: HINDŴAETH | 16 |
| OPSIWN F: SIKHIAETH | 20 |
| CYFLWYNIAD I GREFYDD A MOESEG: GEIRFA | |
| TERMAU CYFFREDINOL | 23 |
| THEMA 1: MEDDYLFRYD MOES | 23 |
| THEMA 2: DEDDF NATURIOL AQUINAS | 25 |
| THEMA 3 : MOESEG SEFYLLFA | 27 |
| THEMA 4 : IWTILITARIAETH | 29 |
| GEIRFA CYFLWYNIAD I ATHRONIAETH CREFYDD | |
| THEMA 1 : DADLEUON DROS FODOLAETH DUW – ANWYTHOL | 29 |
| THEMA 2 : DADLEUON DROS FODOLAETH DUW – DIDDWYTHOL | 32 |
| THEMA 3 : HERIAU I GRED GREFYDDOL – PROBLEM DRYGIONI A DIODDEFAINT | 33 |
| THEMA 4 : PROFIAD CREFYDD | 35 |

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O GRISTNOGAETH: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **adroddiadau am enedigaeth** | Adroddiadau yn efengylau Mathew a Luc am genhedlu a geni Iesu o Nasareth. |
| **anhyboenedd** | Yr athrawiaeth nad yw Duw yn profi emosiynau sy'n seiliedig ar weithredoedd pobl eraill, neu sy'n cael eu hachosi ganddynt (e.e. pleser, poen, angerdd). |
| **atgyfodiad** | Y modd y mae'r meirw yn dod yn ôl yn fyw ar ôl marw. O fewn Cristnogaeth yn benodol, mae pobl yn credu bod yr Iesu wedi atgyfodiyn dilyn ei groeshoeliad. Mae rhai Cristnogion yn credu mai dyma yw tynged pawb, neu rai pobl, wedi marwolaeth. Gall y term hefyd gael ei ddefnyddio mewn modd mwy haniaethol i ddisgrifio dull o fyw a brofir gan Gristnogion wedi iddynt gael tröedigaeth. |
| **Awstin** | Diwinydd ac athronydd Cristnogol cynnar (354-430). |
| **Barth, Karl** | Diwinydd Protestannaidd Diwygiedig hynod o ddylanwadol (1886-1968). |
| **bedydd**<br><br>**- baban**<br><br>**- oedolyn/ crediniwr** | Defod y maeunigolyn yn cael ei wneud yn aelod o'r eglwys drwyddi. Daw'r gair Saesneg *baptism* o'r gair Groeg, *baptizo*, sy'n golygu 'trochi', 'mynd dan y dŵr', neu 'buro'.<br><br>Bedydd babanod, fel arfer, oherwydd y gred y bydd y ddefod yn dileu pechod gwreiddiol cudd.<br><br>Bedydd gwirfoddol oedolion (13+ oed fel arfer) sydd wedi datgan cred yn Iesu. |
| **beirniadaeth ail-olygu** | Mewn astudiaethau o'r Testament Newydd, agwedd ar  ar ysgolheictod beiblaidd beirniadol, lle mae awduron a golygyddion testunau yn cael eu hystyried yn ddehonglwyr creadigol eu deunydd ffynhonnell (a'r archwiliad o'r effeithiau y gall hyn ei gael ar y testun a'i neges). |
| **cerygma** | Y proclamasiwn cychwynnol o neges yr efengyl (a/neu'r neges Gristnogol), a'i hanfod. |
| **coffaoliaeth** | Y gred nad yw'r Ewcharist yn ddim mwy na gweithred er cof am Iesu. |
| **Cristnogaeth y Gorllewin** | Term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r eglwys Ladin neu'r Eglwys Gatholig, a nifer o enwadau Protestannaidd (o gymharu â'r Eglwys Ddwyreiniol). |
| **cydsylweddiad** | Yr athrawiaeth (yn arbennig yn y gred Lutheraidd) fod corff a gwaed Iesu Grist yn cydfodoli â'r  bara a'r gwin a ddefnyddir mewn dathliad o'r Ewcharist, yn hytrach na'u bod yn troi'n waed a chorff Crist.. |
| **cydwybod** | Synnwyr moesol ynghylch da a drwg; teimlad mewnol o ran daioni neu i'r gwrthwyneb. |
| **cyfiawnhad**<br><br>**- drwy ffydd yn unig**<br><br>**- drwy weithiau yn unig** | Gwneud pobl yn deilwng gerbron Duw.<br><br>Y syniad mai dim ond cred yn Iesu sy'n gwneud pobl yn deilwng gerbron Duw.<br><br>Y syniad bod gweithredu da yn gwneud pobl yn deilwng o flaen Duw. |
| **Cyngor Trent** | Cyngor Catholig Rhufeinig eciwmenaidd a gafodd ei gynnal yng ngogledd yr |

| | |
|---|---|
| | Eidal rhwng 1545 ac 1563, mewn ymateb i'r Diwygiad Protestannaidd. Mae'n enwog am iddo ddiffinio'r berthynas rhwng ffydd a gweithredu yn y cyfiawnhad, a chafodd effaith barhaol ar litwrgi ac arfer yr Eglwys Gatholig Rufeinig. |
| **Cysoni** | Yr ymgais i gysoni dau neu fwy o adroddiadau beiblaidd anghyson (neu'r broses olygu o fewn y testunau beiblaidd sydd â'r un nod). |
| **damcaniaeth cyfnewid** | Term ymbarél am gredoau bod marwolaeth Iesu yn farwolaeth dros eraill. Mae dwy ffurf gyffredin ar y ddamcaniaeth yn cynnwys y gred bod Iesu wedi marw fel aberth ar ran pobl er mwyn rhyddhau'r ddynoliaeth, a'r gred mai dim ond Iesu (dwyfol a dynol) a allai weithredu fel aberth gan Dduw er mwyn y ddynoliaeth am fod y ddyled yn daladwy i'r dwyfol (Duw) gan y bobl (dynol). |
| | |
| **damcaniaeth enghraifft foesol** | Mae'n cael ei galw'n 'ddamcaniaeth dylanwad moesol' hefyd.<br>Mae'r ddamcaniaeth hon am yr Iawn yn awgrymu bod bywyd a marwolaeth Iesu, yn anad dim, yn rhoi enghraifft foesol i'r dddynoliaeth. Gall ysbrydoli'r ddynoliaeth i'w chodi ei hun allan o bechod ac i dyfu tuag at uniad â Duw. Nid oedd Crist wedi marw i fodloni unrhyw egwyddor o gyfiawnder dwyfol. Bwriad ei farwolaeth oedd gwneud argraff fawr ar y ddynoliaeth drwy roi ymdeimlad o gariad Duw, a hynny yn y gobaith o feddalu calonnau pobl a'u harwain i edifeirwch. O ganlyniad, mae'r Iawn yn anelu at berswadio'r ddynoliaeth i weithredu'n gywir. |
| **Donatiaeth** | Y term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sect Gristnogol benodol o Ogledd Affrica, yn nhalaith Rufeinig Affrica, yn ystod y bedwaredd a'r bumed ganrif. Roedd ei chredoau ynghylch sacramentau yn bwnc llosg. |
| **Eglwys Uniongred y Dwyrain** | Y rhan honno o'r Eglwys a ddatblygodd yn dilyn Sgism Mawr 1054. Mae ei diwinyddiaeth yn deillio o Dadau'r Dwyrain yn y cyfnod patristig. Mae'n bosibl diffinio Eglwys Uniongred y Dwyrain ymhellach yn nhermau hunaniaeth genedlaethol, e.e. Rwsiaidd, Groegaidd ac ati (ond ni ddylid ei chamgymryd am yr Eglwysi Uniongred Orientalaidd e.e. yr Eglwysi Armenaidd, Coptaidd, ac ati). |
| **Ewcharist** | Un o'r teitlau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio defod yr Eglwys Gristnogol sy'n gysylltiedig â'r Swper Olaf, sef y swper yr oedd Iesu wedi ei ddathlu gyda'i ddisgyblion, a lle mae elfennau o fara a gwin (fel arfer) yn cael eu rhannu ymysg y cyfranogwyr. O'r iaith Groeg, *eucharisiteo*, sy'n golygu "rhoi diolch". Hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd generig i ddisgrifio'r ddefod, pa fodd bynnag y mae'n cael ei dathlu. Yn cael ei alw hefyd yn "gymun" neu'n "Gymun Bendigaid". |
| **iawn** | Cam gweithredu, neu gyfres o gamau gweithredu – aberth fel arfer – y mae modd dileu euogrwydd drwyddynt. Mae Yom Kippur (Dydd y Cymod) yn ŵyl Iddewig sy'n seiliedig ar Lefiticus 23:26. Mae iawn wedi ei adfeddu gan ddiwinyddiaeth Gristnogol fel ffordd o ddeall arwyddocâd marwolaeth Iesu (e.e. Hebreaid 9:6). |
| **Luther, Martin** | Awdur y Diwygiad Protestannaidd Almaenig (1483-1546). |
| **model cenotig** | Mae'r model cenotig yn ceisio esbonio syniad y soniwyd amdano yn Philipiaid 2, lle gwelir Crist yn 'ei wacáu ei hun' i 'gymryd ffurf caethwas'. Ei brif ddiben yw datrys rhai o'r trafferthion sy'n deillio o'r ffaith bod gan Iesu natur ddwyfol a natur ddynol. Mae un ddealltwriaeth o fodel cenotig yr ymgnawdoliad o'r farn bod Iesu, y Mab, yn fwriadol wedi rhoi'r gorau i rai o'i briodoleddau dwyfol (yn enwedig ei natur hollwybodus neu hollalluog) fel rhan o'r ymgnawdoliad. Mae rhai modelau cenotig yn canolbwyntio ar roi ewyllys Crist ei hun i'r neilltu, er |

| | |
|---|---|
| | mwyn iddo allu dangos yn llawn beth mae derbyn y Dwyfol yn gyfan gwbl yn ei olygu. Mae'r syniad hefyd yn arwydd o bwysigrwydd derbyn ewyllys Duw, ac yn arwydd o foeseg Iesu, sef i aberthu a gwasanaethu. |
| **Model *Christus Victor*** | Safbwynt ar yr Iawn sy'n datgan bod marwolaeth Iesu wedi gorchfygu grym drygioni, a oedd wedi tra-arglwyddiaethu ar y ddynoliaeth. Mae'r term yn dod o deitl llyfr Gustav Aulén, a gafodd ei gyhoeddi gyntaf yn 1931. Wrth ddisgrifio Christus Victor, mae Aulén yn dweud, "mae gwaith Crist, yn anad dim, yn fuddugoliaeth dros y grymoedd sy'n cadw'r ddynoliaeth yn gaeth: pechod, marwolaeth, a'r diafol." Roedd Iesu, drwy ei farwolaeth, wedi achub neu waredu'r ddynoliaeth rhag caethiwed pechod. |
| **Nadolig, y** | Y dathliad blynyddol o enedigaeth Iesu. |
| **Pasg, y** | Yr ŵyl flynyddol i gofio am farwolaeth Iesu, ac yn arbennig ei atgyfodiad. Adfeddiad Cristnogol o'r Pasg Iddewig: roedd marwolaeth Crist yn gyfystyr ag aberthu oen y Pasg Iddewig. O ganlyniad, daeth Dydd Gwener y Groglith i gael ei ddathlu ar wahân; roedd y Pasg wedyn yn tueddu i gael ei gysylltu â'r atgyfodiad. |
| **Pedwerydd Cyngor Lateran** | Cyngor Catholig Rhufeinig a gafodd ei gynnal yn 1215, dan lywyddiaeth y Pab Innocentius III. Roedd wedi cyflwyno'r syniad bod y bara a'r gwin, yn ystod yr Ewcharist, yn cael eu 'traws-sylweddu' yn gorff a gwaed Iesu Grist. |
| **presenoldeb sylweddol** | Yr agweddau dwyfol a dynol ar berson Iesu Grist, yn bresennol yn eu cyfanrwydd. |
| **sacrament(au)** | Seremonïau sanctaidd y mae pobl yn credu eu bod yn fodd i drosglwyddo gras i gredinwyr. Y diffiniad clasurol yw, 'arwydd allanol a gweladwy o ras mewnol ac ysbrydol'. Mae bron pob eglwys (ac eithrio'r Crynwyr a Byddin yr Iachawdwriaeth) yn defnyddio'r ddau sacrament 'sabothol' – bedydd a chymun bendigaid h.y. y rhai hynny yr oedd Iesu wedi eu gorchymyn yn benodol, ond mae llawer o wahaniaeth rhyngddynt o ran arfer a dehongliad. Mae Catholigion, credinwyr Uniongred a rhai Anglicaniaid yn credu bod bedydd esgob (conffyrmasiwn), ordeinio, priodas, eneinio a chyffes yn sacramentau llai pwysig. |
| **trawsarwyddocâd** | Y gred bod bara a gwin yr Ewcharist, ar adeg eu cysegru, yn mabwysiadu arwyddocâd gwirioneddol o gorff a gwaed Iesu Grist (ond nad yw'r corff a'r gwaed yn bresennol yn gorfforol). |
| **trawsderfynoldeb** | Y term a gafodd ei ddefnyddio gan y diwinydd Catholig, Karl Rahner, i ddisgrifio ei ddealltwriaeth o'r Ewcharist. Y gred bod pwrpas y bara a'r gwin yn newid drwy eiriau'r cysegru. |
| | |
| **ymgnawdoliad, athrawiaeth yr** | Y gred mewn diwinyddiaeth Gristnogol fod ail berson y Drindod – y Mab tragwyddol – wedi dod ar ffurf ddynol yn y dyn Iesu o Nasareth, a hynny drwy iddo gael ei eni i'r wraig Mair drwy'r Ysbryd Glân. |
| **Zwingli, Ulrich** | Hyrwyddwr ac arweinydd cychwynnol y Diwygiad Protestannaidd yn y Swistir (1484-1531). |

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O ISLAM: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **Akhirah** | Athrawiaeth Islamaidd am y gred mewn bywyd ar ôl marwolaeth a Dydd y Farn. |
| **Ashura** | Degfed diwrnod mis Muharram sy'n gysylltiedig fel arfer â'r 10 diwrnod o alaru Shi'a a 'gŵyl Ashura'. |
| **dhikr** | Myfyrdod, yn llythrennol 'coffadwriaeth', sy'n cysylltu gweithredoedd â gweddïau neu ymadroddion defosiynol penodol sy'n cael eu hadrodd. |
| **du'a** | Yn llythrennol 'gwaedd (o'r galon)'; ymbil personol neu weddi ddefosiynol breifat. |
| **fard** | Gweithred neu reol orfodol mewn Islam. |
| **halal** | Yn llythrennol 'wedi'i fendithio', gweithred sy'n cael ei chaniatáu mewn Islam. |
| **haram** | Gweithred sy'n cael ei gwahardd mewn Islam. |
| **Hijrah** | Muhammad a'i ddilynwyr yn mudo neu'n 'ffoi' o Makkah i Madinah. |
| **Id-ul-Fitr** | Dathliad i dorri'r ympryd ar y diwrnod wedi i Ramadan ddod i ben, sydd hefyd yn ddiwrnod cyntaf Shawal, y degfed mis Islamaidd. |
| **ijma** | Consensws ysgolheigion ar faterion yn ymwneud â chrefydd neu Shari'a. |
| **ijtihad** | Brwydr fewnol, academaidd neu 'frwydr bersonol (drwy fyfyrio dwfn); y broses resymu y mae ysgolheigion cydnabyddedig yn ei defnyddio, gan gyrraedd ra'y (barn neu ddisgresiwn personol), er mwyn pennu materion yn ymwneud â dysgeidiaeth ac ymddygiad Islamaidd, yn seiliedig ar yr hyn sydd yn y Qur'an a Hadith. |
| **Imam** | Arweinydd neu glerigwr Mwslimaidd; pennaeth cymuned neu masjid lleol fel arfer. |
| **Islamoffobia** | Yn llythrennol 'ofn Islam', ond mae'n ofn sy'n seiliedig ar ragfarn ac anwybodaeth. |
| **Israfil** | Yr angel sy'n seinio'r utgorn i gyhoeddi Dydd y Farn Derfynol mewn Islam. |
| **Jahiliyya** | 'Oes anwybodaeth', sy'n cyfeirio at Arabia cyn Islam. |
| **Jibril** | Angel a ymddangosodd o flaen Muhammad yn Hira er mwyn dod â'r datguddiad gan Dduw. |
| **Jummah** | Gweddïau cymunedol dydd Gwener yn y masjid. |
| **makruh** | Gweithred sy'n cael ei chasáu neu sy'n un dramgwyddus mewn Islam. |
| **Malaikah** | Athrawiaeth Islamaidd am y gred mewn angylion. |
| **masjid** | Mosg (yn llythrennol 'lle i syrthio ar yr wyneb'). |

| | |
|---|---|
| **Mikail** | Angel trugaredd. |
| **mujtahid** | Ysgolhaig Islamaidd sy'n gymwys i ddehongli a chymhwyso Shari'a. |
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **muraqaba** | Ffurf arbenigol ar fyfyrdod Sufi. |
| **mustahab** | Gweithred niwtral, yn ôl disgresiwn yr unigolyn, nad yw'n cael ei hannog nac i'r gwrthwyneb, sydd weithiau'n cael ei hargymell, ond nad yw'n hanfodol. |
| **nabi** | Proffwyd Duw. |
| **nadir** | Rhybuddiwr a anfonwyd gan Dduw; term a ddefnyddir i ddisgrifio proffwydi a negeseuwyr hefyd. |
| **nafila** | Mae pob gweddi, ac eithrio'r gweddïau gosod, yn disgyn i'r categori hwn; weithiau cyfeirir atynt fel nawafil. |
| **niyat** | Yn llythrennol yr ystyr yw 'bwriad'; mae'n cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at weithred sy'n cael ei chyflawni er mwyn Duw neu gyda'r bwriad o gyflwyno'r weithred fel ffurf ar ddefosiwn i Dduw. |
| **Qur'an** | Llyfr sanctaidd Islam. |
| **Ramadan** | Nawfed mis y calendr Islamaidd, sy'n cael ei ddefnyddio i ymprydio er mwyn cofféu'r datguddiad o'r Qur'an i Muhammad. |
| **rasul** | Negesydd Duw. |
| **salah** | Gweddïo; mae'n cyfeirio fel arfer at y pum gweddi gosod dyddiol. |
| **shahadah** | Yn llythrennol 'datganiad' neu 'dystiolaeth' yw'r ystyr; piler cyntaf Islam, 'Rwy'n datgan mai un Duw sydd* ac mai Muhammad yw negesydd Duw'.<br>*neu 'nad oes Duw heblaw Duw'. |
| **shirk** | Pechod anfaddeuol o gysylltu partneriaid â Duw. |
| **Sura** | Pennod yn y Qur'an. |
| **tahajjud** | Gweddi nos wirfoddol sy'n cael ei chyflwyno gan Fwslimiaid, ac sy'n cael ei hargymell. Nid yw'n un o'r pum gweddi orfodol. |
| **tasbih** | Gweddi fyfyriol (ffurf ar dhikr neu 'fyfyrdod'), sydd fel arfer yn cynnwys adrodd. |
| **tawhid** | Dysgeidiaeth Islamaidd ynghylch undduwiaeth absoliwt. |
| **Ummah** | Cymuned y credinwyr mewn Islam, y cyfeirir atynt weithiau fel 'brawdoliaeth'. |
| **wird** | Yr arfer Sufi o weddi fyfyriol. |

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O IDDEWIAETH: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **Amidah** | Yn llythrennol 'sefyll': gweddi wrth sefyll, sy'n cael ei hadrodd yn y synagog. Yn wreiddiol, roedd iddi 18 o fendithion (Ashkenazim: Shemoneh Esreh), ond bellach mae ganddi 19: moli nerth, gwybodaeth, maddeuant Duw, ac ati. Mae'n deillio o adeg y Deml gyntaf, ac mae'r weddi hynafol hon yn cael ei hadrodd heb i'r gynulleidfa yngan gair, ac yna'n cael ei darllen yn uchel gan y darllenydd. |
| **Aseret ha-D'ibrot** | Yn llythrennol 'Deg dywediad', sy'n cael eu galw'n Ddeg Gorchymyn. |
| **bet din** | Yn llythrennol 'Tŷ barn', sy'n gysylltiedig â'r term synagog. |
| **bet k'nesset** | Yn llythrennol 'Tŷ cyfarfod', sy'n gysylltiedig â'r term synagog. |
| **bet midrash** | Yn llythrennol 'Tŷ astudio', sy'n gysylltiedig â'r term synagog. |
| **cyfamod** | Cytundeb neu gontract. |
| **Diwygiedig** | Iddewon sy'n cwestiynu rhai credoau a thraddodiadau Uniongred, ac sy'n dilyn ffurf fwy rhyddfrydol a modern ar Iddewiaeth. |
| **Haggadah** | Testun Iddewig sy'n sefydlu trefn y Pesach Seder. |
| **Hasidiaeth** | Mudiad traddodiadol Uchel Uniongred, a gafodd ei sefydlu gan Baal Shem Tov yng Ngwlad Pwyl yn y 18fed ganrif. |
| **Kabbalah** | Traddodiad cyfriniol Iddewig, a gafodd ei ddatblygu yn yr 11eg a'r 12fed ganrif, ac a gyrhaeddodd ei anterth yn y Zohar, 'Goleuni' neu 'Ddisgleirdeb', gwaith clasurol y Kabbalah. |
| **kavod** | Mae'n cael ei ddefnyddio yn yr ysgrythurau Hebraeg i ddisgrifio 'gogoniant Duw'. Y gair sy'n cael ei ddefnyddio am yr egni sy'n cael ei brofi mewn munudau o barchedig ofn, er enghraifft y datguddiad ar Fynydd Sinai, ac sy'n ceisio disgrifio'r profiad o sefyll ym mhresenoldeb Duw. Yn llythrennol 'trwm' neu 'bwysfawr', ond yn aml yn cael ei newid i olygu anrhydedd neu ogoniant, ac yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgrythurau Hebraeg i ddisgrifio'r weledigaeth 'gorfforol' o bresenoldeb Duw. |
| **Kol Nidre** | 'Pob llw'; gweddi sy'n cael ei hadrodd ar noson Yom Kippur. |
| **machzor** | Llyfr gweddi arbennig ar gyfer Rosh Hashanah a Yom Kippur. |
| **Meseia** | Yr athrawiaeth/y gred nad oes yr un meddyliwr Iddewig wedi rhoi'r gorau iddi yn gyfan gwbl, sef dyfodiad 'yr un eneiniog', a fydd yn hebrwng cyfnod newydd i mewn i ddynoliaeth, pan fydd pawb yn addoli'r gwir Dduw mewn heddwch. |
| **mikveh** | Pwll puro, sydd i'w gael mewn synagogau weithiau. |
| **Minyan** | Lleiafrif o ddeg o Iddewon sy'n oedolion (mae Iddew sy'n oedolyn yn golygu unrhyw Iddew gwrywaidd sydd wedi mynd heibio ei ben-blwydd yn ddeg ar hugain), sy'n ofynnol i ffurfio cynulleidfa Iddewig. Daeth y rhif deg o adnod gyntaf Salm 82, sy'n dweud: 'Mae Duw'n sefyll i fyny yn y cyngor dwyfol'. |

| | |
|---|---|
| **mitzvot** | Gorchmynion. |
| **nefesh** | Bywyd/ bod dynol. |
| **olam ha-ba** | Yn llythrennol 'y byd sydd i ddod', sy'n disgrifio'r byd a ddaw. |
| **Pesach** | 'Y Pasg Iddewig': gŵyl yn y gwanwyn, sy'n coffáu'r Exodus o'r Aifft; un o'r tair gŵyl pererinion feiblaidd. |
| **pikuach nefesh** | Y rhwymedigaeth i arbed bywyd; y syniad Iddewig ynghylch 'sancteiddrwydd bywyd'. Daw pikuach nefesh o'r adnod feiblaidd, " Nid wyt i fynd o amgylch yn enllibio ymysg dy bobl na pheryglu bywyd dy gymydog " (Lef. 19:16). Yn ôl pikuach nefesh, rhaid i unigolyn wneud popeth o fewn ei allu i arbed bywyd unigolyn arall. |
| **Pittsburgh Platform, y** | Cafodd ei fabwysiadu gan Gynhadledd Ganolog Rabiniaid America, sef y prif sefydliad rabinaidd diwygiedig, yn 1889. Mae'n cynnwys y datganiadau sylfaenol ynghylch Iddewiaeth Ddiwygiedig yn America. |
| **Rosh Hashanah** | 'Pen y flwyddyn'; gŵyl Flwyddyn Newydd yr Iddewon. |
| **shekinah** | Trawslythreniad Saesneg o enw Hebraeg sy'n golygu 'anheddu' neu 'gyfanheddu', ac sy'n dynodi bod presenoldeb dwyfol Duw a'i ogoniant cosmig wedi dod i anheddu neu gyfanheddu. |
| **Seder** | Defod yw'r Seder sy'n cael ei chyflawni gan deuluoedd Iddewig i gofio hanes gwaredu eu hynafiaid o gaethwasiaeth yn yr hen Aifft. Mae plât yn llawn o fwydydd symbolaidd yn helpu i ailadrodd yr hanes. |
| **Sefer Torah** | Copi o'r Torah mewn llawysgrifen. |
| **Shema** | 'Gwrando (*Hear)* '; dyfyniad o Deuteronomium 6:4-9, sy'n cadarnhau cred mewn un Duw; yn cael ei ddefnyddio fel credo mewn gweddïau dyddiol, ac yn cael ei roi mewn mezuzot a tefillah. |
| **Shul** | Yn llythrennol 'Ysgol' sy'n gysylltiedig â'r term synagog. |
| **tashlikh** | Y ddefod o ymolchi sy'n rhan o Rosh Hashanah, i gael gwared ar bechodau. Yn cael ei chyflawni mewn afon, yn y môr neu mewn ffynnon fel arfer. |
| **tefillah** | Gweddi. |
| **Torah** | Yn golygu 'Cyfarwyddyd' neu 'Ddysgeidiaeth'. Mewn ystyr gyfyngedig, gall olygu dim ond pum llyfr cyntaf yr ysgrythurau Hebraeg. Fodd bynnag, gall hefyd olygu'r ddysgeidiaeth Iddewig gyfan. |
| **tzedakah** | Rhoi neu gymwynasgarwch. |
| **undduwiaeth** | Y gred mai dim ond un Duw sydd. |
| **Uniongred** | Iddewon sy'n cynnal credoau ac arferion Iddewig traddodiadol, yn seiliedig ar y Torah a'r Talmud. |
| **yad** | Pwyntydd defodol Iddewig, sy'n cael ei alw'n bwyntydd Torah fel arfer. Mae'n cael ei ddefnyddio gan y darllenydd i ddilyn y testun wrth i'r Torah gael ei ddarllen o'r sgroliau memrwn. |
| **yeshiva** | Sefydliad Iddewig sy'n canolbwyntio ar astudio testunau crefyddol traddodiadol, sef y Talmud a'r Torah yn bennaf. |

| | |
|---|---|
| **yetzer hara** | Y potensial i fodau dynol ymddwyn yn wael. Tuedd ddrwg. |
| **yetzer hatov** | Y potensial i fodau dynol ymddwyn yn dda. Tuedd dda. |

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O FWDHAETH: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **ailenedigaeth** | Y syniad bod un bywyd yn cael ei achosi gan fywyd arall. Yr athrawiaeth ein bod yn pasio drwy nifer o fywydau yng nghylch samsara. |
| **ailymgnawdoliad** | Y syniad Hindŵaidd fod hanfod yr hunan personol yn goroesi heb ein corff ac yn parhau wedi marwolaeth, gan uno â chorff arall i fyw bywyd newydd. Mae'r broses hon yn digwydd am amser annychmygadwy o hir, hyd nes y bydd yr unigolyn yn cael ei waredu (moksha). Mae Bwdhaeth yn pwysleisio ailenedigaeth yn hytrach nag ailymgnawdoliad. |
| **anatta (P) anatman (Skt)** | 'Dim-hunan'. Y safbwynt nad oes dim am yr unigolyn sy'n parhau'n dragwyddol heb gael ei newid. |
| **anicca (P) anitya (Skt)** | Byrhoedledd, newid un o dri nod bodolaeth. |
| **ansylweddoldeb** | anicca/anitya – amodoldeb, mae popeth yn amharhaol am ei fod yn ddibynnol. |
| **archdeip** | Enghraifft neu fodel perffaith o rywbeth. |
| **Arhat (Skt) Arahant (P)** | 'Yr Un Teilwng' – y cyrhaeddiad uchaf mewn Bwdhaeth Theravada. |
| **athrawiaethau** | Dysgeidiaethau. |
| **Bhumi (Skt)** | Cam ar y llwybr bodhisattva. |
| **bod nefolaidd** | Mae ambell fwdha a bodhisattva yn cael eu disgrifio fel bodau nefolaidd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael eu hystyried yn fodau dynol, ond yn hytrach yn fodau sy'n eu hamlygu eu hunain mewn teyrnasoedd eraill. Mae Bwdhyddion yn credu bod nifer o deyrnasoedd eraill yn bodoli, nid dim ond yr un ddynol hon. |
| **bodau goleuedig** | Bodau nefolaidd neu ddynol sy'n cael eu hystyried yn rhai goleuedig. Yn aml, mae bodau goleuedig yn cael eu hystyried yn fodau sy'n amlygu agweddau penodol ar oleuedigaeth, er enghraifft doethineb neu dosturi. |
| **bodhisattva (Skt)** | 'Bod Goleuedigaeth'. Yn y Mahayana, bod dynol sydd wedi gohirio ei fynediad i nirvana er mwyn helpu eraill. |
| **Brahmin (Skt)** | Y cast uchaf yng nghymdeithas India. Roedd y Bwdha wedi beirniadu'r gyfundrefn gast, a'r grym a oedd yn nwylo'r Brahim. |
| **Bwdha (P, Skt)** | 'Yr Un Goleuedig neu Effro'. Gall y term hwn gyfeirio at y 'Bwdha hanesyddol' – Siddhartha Gautama (sydd hefyd yn cael ei alw'n Sakyamuni, Gotama). Gall hefyd olygu'r cyflwr sy'n uchelgais i Fwdhyddion Mahayana, neu gall gael ei ddefnyddio fel term i ddisgrifio cyflwr nifer diddiwedd o fodau dynol goleuedig. Enghraifft: Bwdha Amida. |

| | |
|---|---|
| **bwdha hanesyddol** | Shakyamuni – sylfaenydd dynol y grefydd – fel y mae'n cael ei wahaniaethu oddi wrth unrhyw fwdha arall. |
| **byrhoedledd** | Y gred nad oes dim yn aros yr un fath, fod popeth yn newid o hyd. |
| **Y Canon Pali** | Y Tipitaka (tair basged, wedi'u ffurfio o'r Vinaya Pitaka, y Sutta Pitaka a'r Abidhamma Pitaka); y corff o ysgrythurau y mae Bwdhyddion Theravada yn credu eu bod yn awdurdodol. |
| **cast** | Israniad o fewn pob varna yn nhraddodiadau India, sydd fel arfer yn gysylltiedig â galwedigaeth. |
| **Coeden Bodhi** | Yr enw defosiynol ar y ffigysbren/y goeden fanian/y goeden ffigys y cafodd Siddhartha, yn ôl traddodiad, ei oleuo oddi tani. |
| **y cyflwr dynol** | Nodweddion bywyd dynol. Roedd y Bwdha wedi gwneud diagnosis o'r cyflwr dynol a dweud ei fod yn un ac iddo dri nod bodolaeth. |
| **cysylltiedigrwydd** | 'Pratitya samutpada' – y modd y mae pethau'n bodoli h.y. yn perthyn neu'n gysylltiedig â'i gilydd. |
| **dana (P)** | 'Rhoi'. Mae lleygwyr yn cynnig dana i'r sangha ac, wrth wneud hynny, yn ennill teilyngdod. |
| **dasa sila (P)** | Y deg argymhelliad sy'n cael eu cadw gan leianod/fynachod sy'n nofisiaid, a hefyd gan y rhai sy'n mynychu encilion mewn mynachdai Bwdhaidd. |
| **defod dderbyn** | Caniatáu aelodaeth o grefydd, sefydliad neu gymdeithas i rywun, a hynny, yn draddodiadol, drwy gyfrwng defodau ffurfiol. |
| **dhamma (P) / dharma (Skt)** | Mewn Bwdhaeth, un o'r tair gem: y dysgeidiaethau; neu arfer y gwirionedd. Nid yw hwn i gael ei ddrysu â defnydd yr Hindŵ o'r term i olygu dyletswydd neu rwymedigaeth. |
| **Diwrnodau Uposatha** | Diwrnodau o ymrwymiad o'r newydd i'r dharma, sy'n digwydd fel arfer adeg lleuad lawn. |
| **dukkha (P) / duhkha (Skt)** | Y cyflwr dynol. Nid oes dim sy'n cyfateb yn foddhaol yn y Gymraeg, ac mae'n cael ei gyfieithu'n aml fel 'annigonoldeb', 'dioddefaint', 'rhwystredigaeth'. Dyma'r gwirionedd cyntaf o'r Pedwar Gwirionedd Nobl a'r Trydydd Nod Bodolaeth. |
| **dukkha-dukkha (P)** | Poen corfforol, emosiynol a meddyliol. |
| **egwyddorion moesegol** | Rheolau o ran ymddygiad a moesoldeb cywir, sy'n cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau moesol. |
| **Y Ffordd Ganol** | Gwrthod eithafion cysur ac asgetigiaeth. Mae'r syniad o ffordd ganol yn bwysig iawn mewn Bwdhaeth. Mae'n syniad athronyddol, yn ogystal â bod yn ffordd o fyw. |
| **goleuedigaeth** | Nod Bwdhyddion, a chyrhaeddiad y Bwdha o dan y goeden bodhi. Yn gyfystyr â nirvana, er bod traddodiadau gwahanol yn ei ddiffinio mewn ffyrdd gwahanol. |
| **hanesoldeb** | Dilysrwydd hanesyddol. |
| **Hunan** | Y cymeriad unigol sydd gan berson. Roedd y Bwdha yn gwrthod y syniad o'r hunan parhaol. |

| | |
|---|---|
| **kamma (P) karma (Skt)** | Y berthynas rhwng bwriadau/gweithredoedd a chanlyniadau (ni ddylid ei ddrysu â rhai ystyron Hindŵaidd sydd i'r term, sef ei fod yn rym sy'n llywio ailymgnawdoliad) |
| **khandha (P) skandha (Skt)** | Y pum 'agreg' amharhaol, sy'n ffurfio ymddangosiad bod dynol – mater, synhwyrau, dirnadaeth, ffurfiadau meddyliol, ymwybyddiaeth. |
| **lakshanas** | Nodau/nodweddion bodolaeth/gwirioneddau cyffredinol (dukkha, anicca ac anatta). |
| **lleyg** | Heb ei ordeinio. Yn Theravada, y Bwdhyddion hynny nad ydynt wedi dod yn fynachod neu'n lleianod, neu nad ydynt yn fynachod neu'n lleianod ar hyn o bryd. Mewn rhai ffurfiau ar Fwdhaeth Mahayana, mae gwahaniaeth yn bodoli rhwng mynachod a lleygwyr, ond nid oes gwahaniaeth yn bodoli mewn eraill. |
| **Y Llwybr Wythblyg Nobl** | Y gwirionedd olaf o'r Pedwar Gwirionedd Nobl. Y safbwynt iawn, y penderfyniad iawn, y cyfathrebu iawn, y gweithredu iawn, y fywoliaeth iawn, yr ymdrech iawn, yr ymwybyddiaeth ofalgar iawn, y canolbwyntio iawn. Mae'r rhain yn darparu'r amodau ar gyfer goleuedigaeth. |
| **magga** | 'Y ffordd': y Llwybr Wythblyg Nobl. |
| **Mahayana (Skt)** | 'Y Cyfrwng Mwy'. Un o'r ddwy brif ffurf ar Fwdhaeth. Theravada yw'r llall. Mae Mahayana yn tueddu i bwysleisio bod nirvana ar gael yma ac yn awr, ynghyd â'r syniad am y bodhisattva. |
| **Mara** | Cythraul sy'n gysylltiedig â dyhead a marwolaeth. Ceisiodd dynnu sylw'r Bwdha oddi ar ei fyfyrdodau o dan y goeden Bodhi, ond cafodd ei drechu gan y Bwdha. |
| **Maya** | Mam y Bwdha – yn ôl y sôn, roedd hi wedi marw o fewn saith niwrnod i eni'r Bwdha. |
| **metta bhavana** | Myfyrdod ar feithrin trugaredd. |
| **mudra** | Ystumiau llaw gydag ystyron penodol. Mae mudras bob amser yn cael eu cynnwys ar gerfluniau o fodau goleuedig, fel ei bod yn bosibl eu hadnabod a'u cysylltu â syniad Bwdhaidd penodol. Mae mudras yn aml yn cael eu defnyddio mewn defodau ym Mwdhaeth Tibet. |
| **myfyrdod** | Mae sawl ffurf ar hyn mewn Bwdhaeth. Fel arfer, mae'n golygu'r arfer o hyfforddi'r meddwl i fod yn dawel, ac i brofi realiti fel ag y mae mewn gwirionedd. Mae rhai ffurfiau ar Fwdhaeth, er enghraifft Zen, yn gweld bywyd cyffredin fel myfyrdod. Roedd y Bwdha ei hun yn myfyrio er mwyn bod yn fwy goleuedig, ac mae'r mwyafrif o Fwdhyddion yn ymgysegru i gyfnodau sylweddol o fyfyrdod bob dydd. |
| **mynd am noddfa/cymryd lloches** | Yr arfer o adrodd y fformiwla: 'Rwy'n cymryd lloches yn y Bwdha, rwy'n cymryd lloches yn y Dharma, rwy'n cymryd lloches yn y Sangha'. |
| **myth** | Stori draddodiadol sy'n ymgorffori credoau poblogaidd neu'n egluro arfer, cred neu ffenomen naturiol. |
| **nibbana (P) nirvana (Skt)** | Yn llythrennol mae'n golygu 'diffodd' (tri thân 'trachwant, casineb ac anwybodaeth, rhithdyb, ymlyniad, a myfiaeth.' Y nod a'r cyrhaeddiad uchaf ar gyfer Bwdhyddion. Mae Nirvana yn cael ei gysyniadu mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan ysgolion gwahanol o Fwdhaeth. Mae'n cael ei ystyried y tu |

| | |
|---|---|
| | hwnt i ddiffiniad, er bod termau tebyg i 'ddedwyddwch', 'y lan arall', 'cyrhaeddiad' neu 'nod' yn aml yn cael eu defnyddio wrth gyfeirio ato. Mae'n derm sy'n cael ei ddiffinio mewn modd negyddol yn aml er mwyn osgoi'r broblem o geisio diffinio rhywbeth sydd y tu hwnt i eiriau. Weithiau, mae'n cael ei ystyried yn rhywbeth sydd yn groes i samsara a dukkha. |
| **nirodha (P)** | Darfyddiad – y trydydd o'r Pedwar Gwirionedd Nobl. |
| **Parajikas (P)** | 'gorchfygiadau' – pedair rheol sydd, o'u torri, yn arwain at ddiarddeliad o'r sangha. |
| **Paramita (skt)** | 'perffeithderau' – nodweddon bodhisattva. |
| **patimokkha (P)** | Y rheolau sy'n llywodraethu ymddygiad mynachod a lleianod. |
| **Y Pedwar Gwirionedd Nobl** | Dysgeidiaeth gyntaf y Bwdha mewn lle o'r enw Deer Park yn Isipatana, a hynny i'r pum asgetig a oedd wedi bod yn gymdeithion iddo yn y goedwig cyn hynny. Dyma sylfeini'r holl ddysgeidiaethau a roddodd y Bwdha, sef fframwaith y mae popeth arall yn ffitio iddo. Y rhain yw'r gwirionedd am ddioddefaint, y gwirionedd am achos dioddefaint, y gwirionedd am ddiwedd dioddefaint, a'r gwirionedd am y llwybr sy'n arwain at ddiwedd dioddefaint. |
| **pesimistaidd** | Tuedd i bwysleisio agweddau anffafriol sefyllfa neu ddigwyddiad, neu i ddisgwyl y canlyniad gwaethaf posibl. |
| **Pratityasamutpada (Skt) / Paticcasamuppada (P)** | Yn cael ei gyfieithu'n aml fel 'Cydgynhyrchiad Cyflyredig', 'Tarddiad cyd-ddibynnol'. Disgrifiad o realiti, sy'n dynodi bod pob ffenomen wedi'i chysylltu'n achosol. |
| **Punna (p) Punya (Skt)** | 'Teilyngdod' – storfa o karma da sy'n cronni o weithredoedd da/haelioni/arfer crefyddol. |
| **realiti** | Y cyflwr o fod yn real. Mae Bwdhyddion yn credu bod goleuedigaeth yn caniatáu i unigolyn weld gwir realiti pethau. |
| **rheolau** | Y rhwymedigaethau sylfaenol y mae Bwdhydd yn ymgymryd â nhw: pump ar gyfer lleygwyr (wyth ar ddiwrnodau uposatha) a deg ar gyfer mynachod a lleianod sy'n nofisiaid. Mae yna hefyd 227 o reolau yn y patimokka. |
| **rheolau i fynachod** | Yn ogystal â'r pum argymhelliad y mae Bwdhyddion mynachaidd a lleyg yn eu dilyn, mae rhai eraill yn cael eu dilyn gan fynachod yn unig (227) neu gan leianod yn unig (311). |
| **rheolau i leygwyr** | Y pum rheol y mae aelodau'r Sangha (yn lleygwyr ac yn fynachod) yn eu derbyn fel rheolau ar gyfer byw. Nid rheolau caeth mohonynt, ond canllawiau y dylai Bwdhyddion geisio eu dilyn. |
| **samatha (P, Skt)** | Ffurf ar fyfyrdod sydd wedi'i chynllunio i sicrhau llonyddwch meddyliol a therfyn ar weithgarwch meddyliol afiach. |
| **Sangha (P, Skt)** | Yn fanwl gywir, y gymuned o fynachod a lleianod, ond yn yr ystyr ehangach, y gymuned Fwdhaidd yn ei chyfanrwydd. Y drydedd o'r tair gem a'r tair noddfa. |
| **sankhara-dukkha** | Dukkha cyflyrau cyflyredig: mae popeth yn anfoddhaol am ei fod yn ansylweddol. |
| **Soto Zen** | Un o ddwy brif ysgol Bwdhaeth Zen, a gafodd ei sylfaenu gan Dogen (1200- |

| | |
|---|---|
| | 53), ac sy'n pwysleisio'r arfer o zazen – myfyrio wrth eistedd. |
| **Sutras ac esboniadau Sanskrit** | Y corff enfawr o lenyddiaeth y mae Bwdhyddion Mahayana yn ei ystyried yn awdurdodol. Mae rhai grwpiau yn pwysleisio Sutras penodol. Mae Sutras pwysig yn cynnwys: Y Lotus Sutra, y Prajnaparamita Sutra, gan gynnwys Sutra'r Galon a Sutra'r Diemwnt, a'r Sukhavati Sutras. |
| **Y Tair Gem** | (triratna) Tri philer y grefydd Fwdhaidd – Buddha, Dharma a Sangha. Mae'r tri yr un mor bwysig â'i gilydd, ac yn gwbl ddibynnol ar ei gilydd. |
| **tanha (P)** | 'Syched' – ymlyniad i bethau materol, pobl, safbwyntiau ffug a'r syniad o'r hunan, sy'n arwain at dukkha. Mae'r berthynas rhwng tanha a dukkha yn cael eu nodi yn yr Ail Wirionedd Nobl. |
| **teilyngdod** | (Punna (P)/Punya (Skt) – karma cadarnhaol. |
| **Theravada (P)** | 'Ffordd yr Henuriaid' – yr ysgol olaf i oroesi sy'n defnyddio dim ond y Canon Pali. Mae hi i'w chael yn bennaf yn Sri Lanka, Burma a Gwlad Thai. |
| **Tipitaka (P) / Tripitaka (Skt)** | 'Tair basged': Tair adran y Canon Pali – sef, y Pitaka Vinaya, y Pitaka Sutta a'r Pitaka Abidhamma. |
| **tosturi** | Ystyr *karuna y*n Sanskit. Un o'r ddwy agwedd sydd i oleuedigaeth (doethineb yw'r llall). |
| **Vassa (P)** | 'Encil y Glawogydd', sef encil lle mae mynachod yn aros mewn myfyrdod dwys am dri mis. Gall lleygwyr ymuno â'r sangha am gyfnod. |
| **vihara (P)** | Mynachlog (Theravada). |
| **Vinaya Pitaka** | Adran gyntaf y Tipitaka (y Canon Pali), sy'n cynnwys y cod disgyblaeth ar gyfer y Sangha. |
| **viparinama-dukkha** | Dukkha sydd wedi cael ei ffurfio gan newid (y boen o geisio dal gafael mewn pethau sy'n newid). |
| **vipassana (P)** | 'Myfyrdod mewnwelediad' – mewnwelediad i'r tri nod bodolaeth. |
| **yr ymwadu** | Hunanymwadiad sy'n cael ei arfer am resymau crefyddol, er enghraifft ildio rhwymau teuluol a chymunedol er mwyn dilyn bywyd ysbrydol. Mae hefyd yn cael ei alw'n 'Mynd Allan' mewn Bwdhaeth. Mae'r 'ymwadiad mawr' yn cyfeirio at y Bwdha yn gadael y palas a'i deulu er mwyn ceisio cael atebion i'w gwestiynau. |
| **zazen (J)** | 'Eistedd': ffurf ar fyfyrdod sy'n cael ei harfer gan yr Ysgol Soto Zen. |
| **Zen** | Yn llythrennol myfyrdod – ffurf ar Fwdhaeth Japaneaidd sy'n seiliedig ar Fwdhaeth Ch'an Tsieineaidd. Mae dwy brif ysgol Zen yn bodoli: Soto a Rinzai. |

Mae'r terfyniad '-s' a'r terfyniadau '-au', 'iaid' etc. yn dderbyniol wrth ymdrin â thermau Bwdhaeth.

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O HINDŴAETH: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **Agni** | Tân aberthol, sy'n cael ei ddwyfoli fel duw tân mewn crefydd Fedig ddiweddarach. |
| **ahimsa** | Didreisedd tuag at unrhyw beth byw – rhan allweddol o syniadaeth Gandhi, a oedd â'i wreiddiau mewn Jainiaeth. |
| **ailymgnawdoliad** | Y gred bod yr atman yn trawsfudo. Mae ymgnawdoliad dynol yn brin. |
| **Ambedkar** | Roedd Dr Ambedkar, yntau hefyd yn Dalit, yn dymuno cael gwared ar y system varna, ac roedd ei safbwyntiau yn gwrthdaro â rhai Gandhi ar y mater hwn. |
| **Arjuna** | Arwr Pandava y Mahabharata. |
| **ashrama/asrama** | 'Cam mewn bywyd'. Mae pedwar cam ar gael: cam y myfyriwr, cam y deiliad tŷ, cam 'preswylydd y goedwig' (ymddeoliad), a'r cam ymwadu. |
| **atman** | Yr enaid tragwyddol. Mae'r disgrifiad o atman mewn rhai traddodiadau Hindŵaidd yr un fath â Brahman. |
| **avatar/avatara** | Ymddangosiad Vishnu ar y Ddaear. Mae rhai traddodiadau yn nodi bod deg avatar o Vishnu ar gael, ac mai'r rhai pwysicaf oedd Rama a Krishna. |
| **Bhagavad Gita** | Rhan o'r Mahabharata, er ei bod yn sefyll ar ei phen ei hun. Ysgrythur bwysig, lle mae Krishna yn dysgu pwysigrwydd dharma, yoga Karma a llwybr bhakti i Arjuna. |
| **Bhagavata Purana** | Myth yr Hindŵiaid am y creu. |
| **bhakti yoga** | Defosiwn cariadus ecstatig i'r dwyfol. |
| **Brahman** | Duw. Weithiau'n cael ei ddisgrifio fel yr 'enaid cyffredinol'. Mae rhai ffurfiau ar Hindŵaeth yn ystyried mai Brahman yw sylwedd popeth. Mae eraill yn ystyried bod y duwiau niferus yn cynrychioli agweddau ar ei bersonoliaeth. |
| **brahmanas** | Offeiriaid, y varna uchaf. |
| **catuvarnashramadharma** | Dyletswydd yn unol â safle rhywun yn y systemau varna ac ashrama. |
| **chela** | Disgybl guru. |
| **dalits** | 'Dan ormes'. Enw sy'n cael ei roi i'r rhai nad oes ganddynt varna. Yr enw arnynt gynt oedd yr anghyffyrddedigion neu'r Harijaniaid. |
| **darshan** | Edrych i lygaid murti a dod i gysylltiad â'r dwyfol. |
| **dharma** | 'Cyfraith', 'dyletswydd', 'rhwymedigaeth'. Mae deddf gyffredinol (sanatana dharma) ar gael mewn Hindŵaeth, a rhaid i bob unigolyn chwarae ei ran ynddi drwy gyflawni ei ddyletswyddau priodol ei hun. |
| **Durga** | Duwies sy'n gysylltiedig â Mahadevi (y fam Fawr). Cafodd Durga ei chreu o ddicter y duwiau er mwyn iddi ladd y cythraul byfflo. Mae hi'n cael ei darlunio gyda deg braich, pob un yn trin arf. |
| **Durga Puja** | Gŵyl, yn arbennig yn Bengal, sy'n dathlu Durga. |

| | |
|---|---|
| **Dvaita Vedanta** | Dvaita Vedanta – Vedanta deuol, sy'n addysgu bod atman a Brahman yn annhebyg ac ar wahân, er eu bod o'r un natur. |
| **grihasta** | Y deiliad tŷ ashrama. |
| **Hindutva** | '*Hinduness*' (gair a gafodd ei fathu gan Vinayak Damodar Savarkar yn ei bamffled, yn 1923, a oedd yn dwyn y teitl *Hindutva*: *Who is a Hindu?*). Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio symudiadau sy'n hyrwyddo cenedlaetholdeb Hindŵaidd. |
| **Holi** | Gŵyl yn y gwanwyn, lle mae arddelwau o gythreules yn cael eu llosgi ar goelcerthi, a lle mae campau Krishna a'r Gopis yn cael eu hefelychu drwy daflu dŵr a phowdr lliw. |
| **Holika** | Cythreules yn ysgrythurau Fedig y grefydd Hindŵaidd, a gafodd ei llosgi i farwolaeth. |
| **Jainiaeth** | Un o grefyddau hynaf India. Mae'n pennu llwybr di-anaf tuag at bob creadur byw. |
| **jiva** | Ysbryd personol unigol. |
| **karma** | Damcaniaeth achos ac effaith, arwaith ac adwaith. |
| **karma yoga** | Yr arfer o weithredu'n unol â dharma'r hunan, heb ystyried hunan-les, gan ildio ffrwythau gweithredoedd i Dduw. |
| **Krishna/Krsna** | Un o'r duwiau Hindŵaidd mwyaf poblogaidd, sy'n cael ei ddarlunio mewn ffyrdd amrywiol fel athro Arjuna yn y Bhagavad Gita, ac fel cariad y Gopis a Radha yn y Bhagavata Purana. Mae hefyd yn cael ei ddathlu'n gyffredinol fel wythfed avatar Vishnu. Wedi ei bortreadu'n las (lliw yr awyr annherfynol), ac yn aml gyda ffliwt a gwartheg, mae'n ganolbwynt llawer o ddefosiwn bhakti. |
| **kshatriya/ksatriya** | Yr ail varna – y rhyfelwyr a'r arweinwyr. |
| **Madhva** | Prif feddyliwr Dvaita Vedanta. |
| **Mahabharata** | Arwrgerdd o 100,000 o benillion, sy'n adrodd hanes y gwrthdaro rhwng y tywysogion Kaurava a Pandava. |
| **mandir** | Teml Hindŵaidd. |
| **Manu** | Prif ddeddfroddwr Hindŵaeth, a chyfansoddwr mytholegol y Manusmirti – testun pwysig ynghylch sut i fyw. |
| **moksha/moksa** | 'Rhyddhau', 'gwaredu' – pedwerydd 'artha' neu nod Hindŵaeth, y rhyddhau o samsara. |
| **monyddiaeth** | Y gred mai dim ond un sylwedd sy'n bodoli (h.y. Brahman), er enghraifft yn athroniaeth Advaita Vedanta. |
| **Paramatman** | Enaid neu ysbryd goruchaf. |
| **Plaid y Bahujan Samaj** | Plaid genedlaethol, wleidyddol yn India, a gafodd ei hysbrydoli gan athroniaeth Ambedkar, ac sydd, yn hanesyddol, wedi cael ei chefnogi'n ffyddlon gan y Dalitiaid. |
| **prashad** | Bwyta bwyd sydd wedi'i gynnig i Dduw, fel modd o gael bendith. |

| | |
|---|---|
| **puja** | Addoliad. Mewn Hindŵaeth, mae llawer o'r addoli yn digwydd yn y cartref. |
| **Purusha sukta** | Aberth dyn cysefin; testun o'r Rig Veda sy'n disgrifio'r aberth yr oedd y duwiau wedi creu'r bydysawd drwyddo. |
| **Rama** | Arwr arwrgerdd Ramayana. Gŵr ac achubwr Sita, sy'n enwog am ei ymlyniad i dharma. Yn cael ei ystyried yn seithfed avatar Vishnu. |
| **Ramayana** | Arwrgerdd sy'n adrodd hanes Rama a Sita, sef eu halltudiaeth o Ayodhya; y cythraul deg pen, o'r enw Ravana, yn herwgydio Sita; Rama yn ei hachub gyda chymorth y mwnci-dduw; y dychwelyd i Ayodhya a threialon Sita. Prif themâu'r arwrgerdd yw'r ymlyniad i dharma, a goruchafiaeth da dros ddrwg. |
| **Rig Veda** | Y Feda hynaf, 'Feda'r mantrau'; mae'n cynnwys mantrau ac emynau ar gyfer yr yajnas |
| **Saguna Brahman** | Gyda rhinweddau mewn Dvaita Vedanta. |
| **samsara** | 'Crwydro': cylch genedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth o ganlyniad i karma. |
| **sannyasin** | Ymwadwr; rhywun sydd wedi ymwadu â chymdeithas a'i hunaniaeth i fynd ar drywydd elw ysbrydol. Ar ddiwedd bywyd fel arfer, ond nid o anghenraid. |
| **santana dharma** | Cyfraith dragwyddol; dealltwriaeth o Hindŵaeth fel egwyddor gyffredinol y dylai pawb ufuddhau iddi. |
| **sat, cit, ananda** | 'bod, ymwybyddiaeth, dedwyddwch'; nodweddion traddodiadol Nirguna Brahman. |
| **satyagraha** | 'Grym y gwirionedd' – un o brif syniadau dysgeidiaeth Gandhi. |
| **Shaiviaeth/Sáiviaeth** | Un o brif draddodiadau theistaidd Hindŵaeth, sef addoli Shiva neu un o'i ffurfiau. |
| **Shiva/Siva** | Trydydd duw y Trimurti, y distrywiwr (grym cadarnhaol sy'n agor y ffordd ar gyfer yr ail-greu). Duw paradocs yw Shiva, gan ei fod yn asgetig ac yn ffrwythlon. |
| **shruti** | 'A gawsant eu clywed'; term sy'n berthnasol i'r Fedâu: yr ysgrythurau hynny y credir eu bod wedi cael eu datguddio, ac felly mae iddynt y statws uchaf ymysg corpws yr ysgrythurau Hindŵaidd. |
| **shudra/sudra** | Y pedwerydd varna. Yn cael ei gyfieithu'n aml fel 'taeog'. Heb ei eni ddwywaith (h.y. nid yw'r bobl hyn yn gwisgo'r Edau Sanctaidd). |
| **Sita** | Duwies y gŵys, gwraig Rama. Yn y Ramayana, mae ei rôl yn un o fod yn wraig rinweddol. |
| **smriti** | 'Sy'n cael eu cofio': term sy'n berthnasol i'r Arwrgerddi a'r Pwranâu. Mae'r ysgrythurau hyn yn bwysig, ond nid oes iddynt yr un statws â'r ysgrythurau shruti, o leiaf mewn cylchoedd uniongred. |
| **Trimurti** | Trindod Brahma, y creawdwr, Vishnu yr amddiffynnwr a Shiva y distrywiwr. |
| **undduwiaeth** | Y gred mai dim ond un Duw sydd. |

| | |
|---|---|
| **Vaishnaviaeth** | Un o'r prif draddodiadau undduwiol, sy'n addoli Vishnu neu un o'i avatarau. |
| **Vaishya/vaisya** | Y trydydd o'r pedwar varna; ffermwyr a masnachwyr. |
| **Vanaprastha** | Y cam ymddeol mewn bywyd. |
| **varna** | 'Lliw': pedwar categori'r gymdeithas Hindŵaidd, system sy'n dyddio o'r cyfnod Fedig. Mae purdeb defodol yn ddibynnol ar varna. O ganlyniad, mae pob varna yn ymarfer cydfwyta a mewnbriodi. |
| **varnadharma** | Dyletswydd yn unol â varna'r hunan. |
| **Varnasharmadharma** | Dyletswydd yn unol â varna a chyfnod mewn bywyd. Weithiau, mae'r term hwn yn gyfystyr â Hindŵaeth. |
| **Vedas** | Y Vedas yw ysgrythurau datguddiedig Hindŵaeth. |
| **Vishnu/Visnu** | Un o dduwiau'r Trimurti, cynhaliwr y bydysawd. Mae Vishnu'n aml yn cael ei addoli ar ffurf un o'i avatarau, ac mae deg ohonynt yn ôl traddodiad. |
| **Yama** | Duw marwolaeth. |

| CYFLWYNIAD I ASTUDIAETH O SIKHIAETH: GEIRFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **y 5 K** | Y pum eitem sy'n cael eu gwisgo gan Sikhiaid, yn arwyddion allanol o'u haelodaeth o'r Khalsa – kesh (gwallt heb ei dorri), kangha (crib), kaccha (trôns neu siorts), kirpan (cleddyf neu gyllell wain), kara (breichled). |
| **Adi Granth** | Yr ysgrythurau Sikhaidd – y cyfeirir atynt yn aml fel y Guru Granth Sahib oherwydd bod Guru Gobind Singh wedi rhoi Guruship ar y llyfr. Mae'r llyfr yn cynnwys 1,430 o dudalennau, ac wedi'i ysgrifennu mewn llawysgrifen Gurmukhi ac mewn arddull mydryddol, sydd wedi'i fwriadu i'w ganu. Mae cyfranwyr yn cynnwys Guru Nanak ac ambell Guru Sikhaidd arall, yn ogystal ag awduron Mwslimaidd a Hindŵaidd. |
| **ailenedigaeth** | Yn debyg i'r cysyniad Hindŵaidd o'r ailymgnawdoliad – cylch genedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth. Mae gwaredigaeth yn golygu rhyddhad o'r cylch hwn a chyrraedd uniad â Duw. |
| **Amrit** | Yn llythrennol, mae hwn yn golygu 'neithdar'. Mae'n cynnwys dŵr a siwgr, sydd wedi'u cymysgu â chleddyf daufiniog. Rhaid yfed amrit er mwyn cael eich derbyn i'r grefydd Sikhaidd. |
| **Baisakhi/Vaisakhi** | Prif ŵyl Sikhiaid, sy'n coffáu sefydlu'r Khalsa gan Guru Gobind Singh yn 1699. |
| **Bhagat Ramanand** | Gurmukh, bardd y mae ei emyn yn rhan o'r Adi Granth. |
| **Bhai Gurdas** | Ffigur crefyddol Sikhaidd, sy'n fawr iawn ei ddylanwad. Ysgrifennydd gwreiddiol y Guru Granth Sahib. |
| **cast** | Mae Sikhiaid yn gwrthod y syniad nad yw bodau dynol yn gydradd. Er bod Indiaid sy'n Sikhiaid yn ymwybodol o'r cast y cawsant eu geni iddo, mae ymrwymiad llym yn cael ei wneud i beidio â gwahaniaethu ar sail cast. |
| **Dasam Granth** | Llyfr sanctaidd o ysgrifau sy'n cael ei briodoli i Guru Gobind Singh. |
| **Dharam** | Mae'r term hwn yn golygu 'cyfiawnder'. |
| **Dharam Yudh** | Rhyfel i amddiffyn cyfiawnder. |
| **Diwali** | Gŵyl sy'n coffáu rhyddhau Guru Hargobind o garchar Gwalior, a'i gymwynasgarwch ar ran y 52 Raja Hindŵaidd. |
| **gurmukhi** | 'O enau'r Guru' – yr ysgrythur sy'n cael ei phriodoli i Guru Angad, ac y dywedir ei fod wedi ei chreu. Mae'r Adi Granth wedi'u ysgrifennu yn rhan ohoni. |
| **guru** | Athro, yr un sy'n arwain y disgybl o dywyllwch i mewn i oleuni. Mae Duw yn cael ei ddiffinio fel y Guru (Sat Guru – Gwir Athro, Waheguru – Athro rhagorol). Mae'r teitl Guru yn cael ei roi i ddeg athro dynol Sikhiaeth. Mae hefyd yn cael ei roi i deitl y llyfr Guru Granth Sahib. |
| **Guru Amar Das** | Y trydydd o Ddeg Guru Sikhiaeth. Roedd yn rhoi statws cydradd i ddynion a menywod. Roedd hefyd wedi cryfhau system cegin gymunedol y langar. |
| **Guru Granth Sahib** | Y teitl a oedd wedi cael ei roi i Adi Granth wedi i Guru Gobind Singh roi Guruship ar y llyfr. |

| | |
|---|---|
| **Guru Har Gobind** | Y chweched guru, a oedd wedi cyflwyno'r cysyniad o miri a piri. |
| **Guru Nanak** | Y Guru cyntaf, a sylfaenydd Sikhiaeth. |
| **Guru Panth** | Y gymuned Sikhaidd. |
| **Ik Onkar** | 'Un'. Gair agoriadol y Mul Mantra (ac felly'r Guru Granth Sahib). Y syniad o undod Duw sy'n ganolog i Sikhiaeth. |
| **janam sakhis** | Casgliad o hanesion buchedd sant am Guru Nanak. |
| **Kaccha** | Un o'r pum K: siorts, yn lle'r dhoti, sy'n galluogi gweithredu cyflym mewn rhyfel, ac sy'n symbol o ddiweirdeb ac ymataliaeth. |
| **Kangha** | Un o'r pum K: crib, i gadw'r kesh yn daclus. |
| **karah prashad/prasad** | Melysfwyd sydd wedi'i wneud o siwgr ac ymenyn gloyw (*ghee*) ac sy'n cael ei rannu rhwng y gynulleidfa mewn Gudwara i symboleiddio melyster gras Duw. |
| **karma** | Yn ôl yr ysgrythurau Sikhaidd, ystyr karma yw y byddwch yn cynaeafu'r hyn y byddwch yn ei blannu. |
| **Kartapur** | Dinas a gafodd ei sefydlu gan Guru Nanak. |
| **Kaur** | Mae'n golygu 'tywysoges' – cyfenw gorfodol ar gyfer pob aelod benywaidd o'r khalsa. |
| **kesh/kes** | Un o'r pum K: gwallt heb ei dorri; mae torri gwallt yn golygu ymyrryd â chreadigaeth Duw. |
| **Khalsa** | Y corff cyfunol o bob Sikh sy'n gyflawn aelod, wedi ei sefydlu gan Guru Gobind Singh. |
| **Kirat Karo** | Un o dir philer sylfaenol Sikhiaeth. Ennill arian mewn modd cyfiawn a gonest. |
| **Lalla** | Cyfrinydd o'r sect Kashmiri Shaivite a oedd wedi ysgrifennu nifer o gerddi defosiynol a chyfriniol, yn mynegi ei dyhead am y dwyfol. |
| **Langar** | Cegin gymunedol rad ac am ddim – pryd defosiynol sy'n cael ei fwyta gan y gynulleidfa yn rhan o'r gwasanaeth crefyddol. Yn cynrychioli'r gred Sikhaidd yng nghydraddoldeb holl dynolryw. |
| **Naam Japo** | Mae'r term 'naam' yn cyfeirio at yr enwau amrywiol sy'n cael eu rhoi i Dduw. Mae 'Naam Japo' yn cyfeirio at fyfyrio, canu lleisiol o'r shabads neu emynau o'r Guru Granth Sahib, neu lafarganu amrywiol enwau Duw. |
| **panj piare** | Y Pum Anwylyd; pum aelod cyntaf y Khalsa, a gafodd eu sefydlu mewn ffordd ddramatig gan Guru Gobind Singh yn 1699, wedi iddynt dyngu y byddent yn rhoi eu bywydau drosto. |
| **panth** | 'Ffordd' – yn dynodi'r gymuned Sikhaidd yn ei chyfanrwydd. |
| **Rhai Pur** | Y corff o Sikhiaid urddedig sy'n gwisgo'r Pum K ac sy'n tyngu yn yr amrit-samskar i amddiffyn eu ffydd gyda'u bywydau eu hunain pe byddai rhaid. |
| **Saguna a nirguna** | Duw gyda phriodoleddau a heb briodoleddau. |

| | |
|---|---|
| **sangat** | Cymuned, cynulleidfa Sikhaidd. |
| **Sant** | Sikh sydd wedi'i wireddu'n ysbrydol. |
| **Sant Sipahi** | Yn llythrennol, mae hyn yn golygu 'sant-filwr'. Gorchmynnodd Guru Hargobind y dylai Sikhiaid fod yn deyrngar i ddysgeidiaeth y Gurus, ac y dylent fod yn barod i godi arfau mewn hunanamddiffyniad ac i amddiffyn y rhai dan ormes. |
| **Saram Khand** | Teyrnas ymdrech ysbrydol. |
| **Sarbat da bhalla** | Term Punjabi sy'n golygu 'lles pawb'. Mae'n adlewyrchu rhan bwysig o athroniaeth Sikhaidd. |
| **sewa** | 'Gwasanaeth' – gwaith heb ddisgwyl gwobr, yn gydnabyddiaeth fod gwasanaeth sy'n cael ei gyflawni dros gyd-ddyn yn wasanaeth i Dduw. Byddai gweithio yn y langar yn enghraifft nodweddiadol o sewa. |
| **Sheik Farid** | Awdur 134 o emynau yn y Guru Granth Sahib. |
| **Singh** | Yn deillio o'r gair Sanskrit ar gyfer 'llew', ac yn enw gorfodol ar bob aelod gwrywaidd o'r khalsa. |
| **Sufiaeth** | Dimensiwn cyfriniol Islam. |
| **twrban** | Lliain sy'n cael ei glymu mewn dull nodweddiadol a'i ddefnyddio i orchuddio kesh (gwallt heb ei dorri). |
| **Vaisakhi** | Gŵyl Sikhaidd sy'n cyd-daro â'r Flwyddyn Newydd. |
| **vak lao** | 'Cymryd cyngor' – mae'r Adi Granth yn cael ei agor ar hap, a darn yn cael ei ddarllen. Mae nifer o Sikhiaid yn ystyried yr adnodau yn eiriau Duw, ac yn eiriau a fydd o gymorth iddynt yn ystod y dydd. |
| **Vand Chakko** | Un o dri phrif biler dysgeidiaeth Guru Nanak, ac mae'n golygu rhannu ag eraill yn y gymuned. |
| **Varan Bhai Gurdas** | Yr enw a roddir i'r deugain pennod o ysgrifen gan Bhai Gurdas, y cyfeiriodd Guru Arajan atynt fel yr allwedd i'r Guru Granth Sahib. |
| **Waheguru/Vahiguru** | 'Gwir Enw' – un o enwau Duw. Mae eraill yn cynnwys Sat Nam (Gwir Enw), Sat Guru (Gwir Athro), ac Akal Purakh (Yr Un Tragwyddol). |
| **Ymerodraeth y Mughal** | Ymerodraeth a oedd yn ymestyn dros rannau helaeth o is-gyfandir India ac Afghanistan, wedi'i sefydlu gan y gymdeithas Fwslimaidd Bersiaidd ac yn cael ei rheoli ganddi. |

| CYFLWYNIAD I GREFYDD A MOESEG: GEIRFA – TERMAU CYFFREDINOL | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **moeseg** | Daw'r gair Saesneg *ethics* o'r gair Groeg *ethike*, sydd, yn ei ffurf wreiddiol *(ethos)* yn golygu defod neu arferiad. I'r Groegiaid, roedd yn cyfeirio at y ffordd briodol neu arferol o ymddwyn yn y gymdeithas. Yn y byd modern, mae'n cyfeirio at faes o athroniaeth foesol sy'n anelu at bennu ystyr cywir ac anghywir. |
| **moesegol** | Cydymffurfio â'r safonau derbyniol o ran ymddygiad cymdeithasol neu broffesiynol. |

| THEMA 1: MEDDYLFRYD MOESEGOL | |
|---|---|
| **Adams, Robert** | Athronydd o America a anwyd yn 1937. Creodd fersiwn ddiwygiedig o 'Ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol'. |
| **Aristotle** | Athronydd o'r Hen Roeg (384 CCC – 322 CCC), a gafodd ei addysgu gan Platon yn yr Academi. Yn ddiweddarach, gwahanodd oddi wrth athroniaeth Platon a chreu ei syniadau athronyddol ei hun, sydd wedi cael dylanwad mawr ar athroniaeth y gorllewin. |
| **Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol** | Damcaniaeth fetafoesegol sy'n credu bod moesoldeb yn dibynnu ar Dduw. Mae daioni moesol yn digwydd pan fydd asiantau moesol yn ufuddhau i orchmynion Duw. |
| **dilema Euthyphro** | Penbleth sy'n ymddangos gyntaf yn neialog Platon, Euthyphro. Yn y bôn, mae'r dilema yn gofyn a yw rhywbeth yn dda dim ond am fod Duw yn ei orchymyn, neu oherwydd ei fod yn dda ynddo'i hunan, ac felly dim ond cadarnhau hynny y mae Duw. |
| **gwrthwynebiad plwraliaeth** | Yn y bôn, mae'n nodi bod Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol yn afrealistig, o ystyried natur anghyson gorchmynion Duw yn ôl honiadau crefyddau gwahanol. |
| **Gwynfydau** | Rhoddodd Iesu y Gwynfydau i ddynoliaeth yn y Bregeth ar y Mynydd, sy'n cael ei chofnodi yn yr Efengyl yn ôl Mathew. |
| **myfïaeth foesegol** | Moeseg normadol sy'n hawlio y dylai asiantau moesol wneud yr hyn sydd o hunan-les iddynt. Felly, mae gweithred yn foesol gywir os yw'n mwyhau hunan-les. |
| **myfïaeth seicolegol** | Ysgol seicolegol o feddwl sy'n credu mai dim ond er eu hunan-les eu hunain y gall pobl weithredu. |
| **problem mympwyoldeb** | Beirniadaeth o Ddamcaniaeth Gorchymyn Dwyfol sy'n nodi, yn y bôn, fod moesoldeb yn dod yn rhywbeth cwbl fympwyol os yw Duw yn gorchymyn moesoldeb. |
| **rhinwedd** | Math o ddamcaniaeth foesegol sy'n ceisio diffinio pa fath o ymddygiad sy'n arwain at ddatblygu rhinweddau daioni neu ragoriaeth ar lefel bersonol neu gymunedol, yn hytrach na diffinio a yw gweithred yn dda neu'n ddrwg ynddi ei hun. |
| **rhinweddau moesol** | Math o rinwedd a gafodd ei hamlygu gan Aristotle. Yn ôl Aristotle, mae'n rhaid ymarfer rhinweddau moesol, a gall hyn gael ei gyflawni drwy ddilyn y 'cymedr'. |

| | |
|---|---|
| **Stirner, Max** | Roedd Max Stirner (a anwyd yn Johann Schmidt yn 1806) yn athronydd o'r Almaen. Ef oedd un o ragflaenwyr myfïaeth, nihiliaeth ac anarchiaeth. Prif waith Stirner yw *Yr Ego a Pherchen yr Hunan (The Ego and Its Own)*. |

| THEMA 2: DEDDF NATURIOL AQUINAS | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **Aquinas** | Thomas Aquinas, offeiriad Dominicaidd o'r 13eg ganrif (1224-1274) sydd, yn gyffredinol, yn cael ei ystyried fel athronydd a diwinydd mwyaf dylanwadol yr Eglwys Gatholig. Mae ei weithiau enwog yn cynnwys *Summa Theologica* a *Summa Contra Gentiles*. Thomas Aquinas a ddatblygodd y ddamcaniaeth foesegol sy'n cael ei galw'n Ddeddf Naturiol neu'n Ddeddf Foesol Naturiol. |
| **cyfiawnder** | Trin pobl yn deg ac yn gyfartal, a hynny yn gyffredinol a gerbron y gyfraith. |
| **cymedroldeb** | Hunanreolaeth neu ymataliaeth, ymwrthodiad, a chymesuredd. Y gallu i reoli greddfau a dyheadau er mwyn cael eich ystyried yn anrhydeddus. Un o'r pedair prif rinwedd. |
| **daioni gwirioneddol/ ymddangosiadol** | Credai Aquinas y dylem ddefnyddio ein gallu i resymu i wahaniaethu rhwng yr hyn yr oedd yn ei alw yn ddaioni gwirioneddol a daioni ymddangosiadol. Mae daioni gwirioneddol yn rhywbeth sy'n ein cynorthwyo i ddod yn agosach at y natur ddynol ddelfrydol yr oedd Duw wedi ei chynllunio ar ein cyfer, e.e. bod yn rhywun cymdeithasol. Mae daioni ymddangosiadol yn ddrygioni sy'n mynd â ni ymhellach i ffwrdd o'r natur ddynol ddelfrydol yr oedd Duw wedi ei chynllunio ar ein cyfer, e.e. cymryd cyffuriau neu alcohol mewn ymgais i fod yn fwy cymdeithasol. Roedd Aquinas yn credu nad oedd neb, o fwriad, yn canlyn drygioni drwy ddewis daioni ymddangosiadol, ond weithiau nid ydym yn defnyddio ein gallu i resymu'n iawn ac mae'r camgymeriad hwn yn digwydd. |
| **Deddf Naturiol** | Damcaniaeth foesegol sy'n seiliedig ar y cysyniad o achos neu ddiben terfynol, sy'n pennu defnydd naturiol neu nod popeth; corff o wirioneddau moesol cyffredinol sydd wedi'u casglu drwy reswm a phrofiad; safbwynt sy'n cael ei gysylltu ag Aristotle ac a gafodd ei ddatblygu gan Aquinas. |
| **elusengarwch** | Trugaredd anhunanol, diamod a gwirfoddol ar gyfer eraill mewn ymateb i gariad Duw. Un o'r tair rhinwedd ddiwinyddol sy'n cael eu hamlinellu yn 1 Corinthiaid 13 gan yr apostol Paul, ar y cyd â ffydd a gobaith. Mae elusengarwch yn rhinwedd sy'n cael ei chynnwys gan Aquinas fel rhan o'i ddamcaniaeth Deddf Naturiol. Roedd yn credu bod datblygu rhinweddau o'r fath yn dod â phobl yn agosach at ddelfryd Duw ar gyfer y natur ddynol. |
| **erthyliad** | Gweithdrefn feddygol i derfynu beichiogrwydd, fel arfer cyn i'r ffoetws allu byw'n annibynnol. |
| **ewthanasia** | Yn llythrennol mae'n golygu 'marwolaeth dda'. Mae'n disgrifio gweithdrefn feddygol lle mae unigolyn naill ai'n terfynu ei fywyd ei hun oherwydd poen neu ddioddefaint eithafol, neu lle caniateir i fywyd unigolyn arall ddod i ben, neu lle bydd eraill yn helpu i ddod â bywyd yr unigolyn hwnnw i ben, oherwydd cyflwr meddygol difrifol. |
| **ffydd** | Bod yn gadarn yn eich cred yn Nuw; un o'r tair rhinwedd ddiwinyddol sy'n cael eu hamlinellu yn 1 Corinthiaid 13 gan yr apostol Paul, ar y cyd â gobaith ac elusengarwch; mae'n cael ei chynnwys gan Aquinas fel rhan o'i ddamcaniaeth Deddf Naturiol. |
| **gobaith** | Disgwyl cael a dyheu am gael; ymatal rhag anobaith; credu yn y posibilrwydd o fywyd tragwyddol yn y nefoedd gyda Duw. Un o'r tair rhinwedd ddiwinyddol sy'n cael eu hamlinellu yn 1 Corinthiaid 13 gan yr apostol Paul, ar y cyd â ffydd ac elusengarwch. |
| **gofynion cynradd** | Pum prif ddiben bodolaeth dynoliaeth (a roddwyd gan Dduw) yn ôl damcaniaeth |

| | |
|---|---|
| | Deddf Naturiol Aquinas: addoli Duw, byw mewn cymdeithas drefnus, atgenhedlu, addysg, ac amddiffyn y diniwed. Dyma'r egwyddorion absoliwt a deontolegol sydd i'w cael yn namcaniaeth Deddf Naturiol Aquinas. Ni ddylai'r egwyddorion hyn gael eu torri, beth bynnag yw'r canlyniadau. |
| **gofynion eilaidd** | Mae'r rhain yn deillio o'r gofynion cynradd. Er enghraifft, mae'r egwyddor 'byw mewn cymdeithas drefnus' yn arwain at reolau tebyg i 'rhaid dychwelyd eiddo i'r sawl y cafodd ei ddwyn oddi wrtho'. Fodd bynnag, rhaid i'r gofynion eilaidd gael eu dehongli yng nghyd-destun y sefyllfa, ac mae rhywfaint o hyblygrwydd mewn achosion eithafol. Er enghraifft, pe bai rhywun yn berchen ar ddryll a hwnnw'n cael ei ddwyn oddi wrtho, ond ei fod yn bwriadu lladd eraill â'r dryll wedi i'r dryll gael ei ddychwelyd iddo, yna ni fyddech yn dychwelyd y dryll gan mai dyma fyddai'r peth rhesymol i'w wneud. |
| **gweithredoedd mewnol/allanol** | Termau a gafodd eu defnyddio gan Aquinas, fel rhan o'i ddamcaniaeth Deddf Naturiol, i wahaniaethu rhwng y cymhelliant ar gyfer gweithred a'r weithred ei hun. Y weithred fewnol yw'r cymhelliant/bwriad ar gyfer cyflawni gweithred. Y weithred allanol yw'r weithred ei hun. Er mwyn i weithred fod yn wirioneddol dda, rhaid i'r gweithredoedd mewnol ac allanol, fel ei gilydd, fod yn dda. |
| **gwroldeb** | Cyfeirir at y rhinwedd hon weithiau fel dewrder; dangos dyfalbarhad, a bod â'r gallu i wynebu ofn ac ansicrwydd neu fygythion er mwyn cyflawni nod; un o'r pedair prif rinwedd (gweler uchod). |
| **moeseg gymhwysol** | Cymhwyso damcaniaethau moesegol at sefyllfaoedd ymarferol a dilemâu moesol. |
| **pedair lefel o ddeddf** | Roedd Aquinas yn credu bod pedwar math o gyfraith berthnasol yn bodoli. Y rhain yw:<br>Deddf dragwyddol – mae diben i bopeth y mae Duw yn ei greu, ac mae popeth yn gweithredu yn unol â chynllun Duw<br>Deddf ddwyfol – deddf ddwyfol yw deddf dragwyddol Duw sy'n cael ei rhoi drwy'r ysgrythur<br>Deddf naturiol – mae rhai agweddau ar ddedf dragwyddol Duw hefyd yn gyraeddadwy drwy'r ddeddf naturiol, y gallwn ddod o hyd iddi drwy ein gallu i resymu, gan ein galluogi i wahaniaethu rhwng da a drwg. Yn ôl Aquinas, nid yw'n bosibl i ni ddeall holl fanylion deddf dragwyddol hyd nes y bydd Duw yn eu hamlygu i ni pan fyddwn ni'n marw<br>Deddf ddynol – systemau cyfreithiol cymdeithas, a ddylai godi o'r ddeddf naturiol a dwyfol. |
| **prif rinweddau** | Mae pedair prif rinwedd yn cael eu pennu yn ôl rheswm: pwyll, cyfiawnder, cymedroldeb a gwroldeb. Credir eu bod yn ffurfio sail sylfaenol bywyd moesol, ac roeddent yn dermau a gafodd eu defnyddio gan Aristotle ac Aquinas. |
| **pwyll** | Y gallu i farnu'n rhesymol rhwng gweithredoedd ac i adnabod y gweithredoedd mwyaf priodol ar unrhyw adeg benodol. Un o'r pedair prif rinwedd. |
| **rhinweddau datguddiedig** | Ffydd, gobaith ac elusengarwch, sef y tair rhinwedd sy'n cael eu datgelu drwy'r Ysgrythur (yr apostol Paul yn 1 Corinthiaid 13). Mae diwinyddiaeth Gristnogol yn addysgu bod y rhinweddau hyn yn wahanol i'r prif rinweddau gan na ellir eu cael drwy ymdrech ddynol. Mae'r unigolyn yn eu derbyn dim ond pan fydd yn cael ei lenwi â gras dwyfol. Maent hefyd yn cael eu galw'n rhinweddau diwinyddol yn aml gan eu bod yn cael eu llywio gan Dduw. |

| THEMA 3: MOESEG SEFYLLFA | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| ***agape*** | Egwyddor y 'cariad anhunanol', sy'n sail i Foeseg Sefyllfa a gafodd ei datblygu gan Joseph Fletcher. |
| **antinomiaeth** | Y syniad nad yw pobl dan unrhyw rwymedigaeth i ufuddhau i ddeddfau moeseg neu foesoldeb fel y maent yn cael eu cyflwyno gan awdurdodau crefyddol. Mae'r dull hwn yn gwbl sefyllfaol. Nid oes unrhyw reolau, deddfau neu egwyddorion y mae'n rhaid eu dilyn: bydd y sefyllfa ei hun yn rhoi'r ateb, a bydd yn bosibl dod o hyd iddo drwy reddf. |
| **ataliaeth niwclear** | Y gred bod meddiannu arfau niwclear yn amddiffyn gwladwriaeth rhag ymosodiad gan wladwriaeth arall, a hynny dim ond ar sail bygythiad i ryddhau arfau o'r fath. |
| **cydwybod** | Synnwyr moesol unigolyn ynghylch da a drwg; y rhan honno o'r unigolyn sy'n barnu moesoldeb gweithredoedd yr hunan. |
| **Y Chwe Egwyddor Sylfaenol** | Un o'r ddwy set o egwyddorion arweiniol mewn Moeseg Sefyllfa (y set arall yw'r bedair egwyddor weithredol), a gafodd eu dyfeisio gan Fletcher er mwyn helpu i benderfynu beth fyddai'r weithred fwyaf cariadus mewn unrhyw sefyllfa benodol. Dyma'r chwe egwyddor sylfaenol hyn: un peth yn unig sy'n gynhenid dda, sef cariad, a dim byd arall; dim ond yr egwyddor o gariad sy'n darparu sail resymol i lunio barn ynghylch yr hyn sy'n gywir neu'n anghywir; yr un peth yw cariad a chyfiawnder gan mai cariad wedi'i ddosbarthu yw cyfiawnder, a dim byd arall; mae cariad yn ewyllysio daioni i eraill, ni waeth beth yw'r teimladau; mae canlyniad cariadus yn cyfiawnhau'r modd; mae penderfyniadau cariad yn cael eu gwneud yn ôl y sefyllfa, nid yn rhagnodol. |
| **deddfolaeth** | Dull moesegol, yn seiliedig ar reolau penodedig, y mae pobl yn gallu gwneud pob penderfyniad moesol drwyddo. Mae deddfolaeth yn aml yn gysylltiedig â'r syniad bod ufudd-dod i god deddf grefyddol yn angenrheidiol er mwyn i rywun ennill bywyd tragwyddol. |
| **Fletcher, Joseph** | Joseph Fletcher, athro o America (1905-1991) a ffurfiolodd y ddamcaniaeth sy'n cael ei galw'n Foeseg Sefyllfa yn ei lyfr *Situation Ethics: The New Morality* (1966). Roedd Fletcher yn academydd blaenllaw a oedd yn ymdrin â phynciau yn amrywio o erthylu i glonio. Cafodd ei ordeinio yn offeiriad esgobaethol, ond yn ddiweddarach roedd yn ei alw ei hun yn atheist. Dywedodd Fletcher y dylem bob amser ddefnyddio'r egwyddor *agape* (cariad anhunanol) a'i rhoi ar waith yn y sefyllfa yr ydym yn delio â hi. Dywedodd y dylem bob amser weithredu'n gariadus, ac nad oes yr un ddwy sefyllfa yr un fath. Roedd ei ddamcaniaeth yn berthynolaidd ac yn ganlyniadaethol ar yr un pryd. |
| **Y Pedair Egwyddor Weithredol** | Un o'r ddwy set o egwyddorion arweiniol mewn Moeseg Sefyllfa (y set arall yw'r chwe egwyddor sylfaenol) a gafodd eu dyfeisio gan Fletcher er mwyn helpu i benderfynu beth fyddai'r weithred fwyaf cariadus mewn unrhyw sefyllfa benodol. Y pedair egwyddor yw personolyddiaeth, positifiaeth, pragmatiaeth a pherthynoliaeth. |
| **personolyddiaeth** | Un o bedair egwyddor weithredol Fletcher: rhaid rhoi pobl, nid deddfau, yn gyntaf mewn unrhyw sefyllfa, a rhaid anelu at sicrhau'r canlyniad mwyaf cariadus. Er enghraifft, yn ôl yr egwyddor hon, byddai'n dderbyniol i fenyw ddwyn bwyd i fwydo'i phlant newynog. |
| **perthynas amlgarwriaethol** | Mae hyn yn golygu arfer a derbyn nad yw perthnasoedd agos yn gynhwysol *(exclusive)* mewn perthynas â pherthnasoedd rhywiol eraill. Mae pob un sy'n rhan o'r perthnasoedd hyn yn cydsynio iddynt ac yn gwybod amdanynt. |
| **perthynas gyfunrywiol** | Unigolyn sydd mewn perthynas ramantaidd ac agos (sydd weithiau'n rhywiol) â rhywun o'r un rhyw. |

| | |
|---|---|
| **perthynoliaeth** | Y safbwynt nad oes unrhyw normau cyffredinol yn bodoli, ond y dylai gweithred gael ei barnu'n gywir neu'n anghywir yn ôl yr amgylchiadau cymdeithasol, diwylliannol neu unigol sy'n berthnasol i bob sefyllfa; un o bedair egwyddor weithredol Fletcher. |
| **positifiaeth** | Un o bedair egwyddor weithredol Fletcher: mae'n golygu bod yn rhaid i rywun dderbyn mai gweithredu yn y dull mwyaf cariadus yw'r peth iawn i'w wneud, a hynny heb unrhyw brawf rhesymol fod hynny'n wir. Mae cariad yn darparu cyfiawnhad, nid tystiolaeth, ar gyfer penderfyniad moesegol. Mae *agape*, yn ddigwestiwn, yn foesol gywir. |
| **pragmatiaeth** | Un o bedair egwyddor weithredol Fletcher, sy'n golygu bod yn rhaid i rywun werthuso'r sefyllfa a chyflawni pa weithred bynnag sy'n ymarferol, gyda chariad yn gymhelliant. |

| THEMA 4: IWTILITARIAETH | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **arbrofi ar anifeiliaid** | Mae arbrofi ar anifeiliaid yn golygu gwneud defnydd o anifeiliaid nad ydynt yn ddynol mewn arbrofion; mae'r arbrofion hyn yn ceisio rheoli'r newidynnau sy'n effeithio ar y system fiolegol sy'n cael ei hastudio. |
| **ataliaeth niwclear** | Y gred bod meddiannu arfau niwclear yn amddiffyn gwladwriaeth rhag ymosodiad gan wladwriaeth arall, a hynny dim ond ar sail bygythiad i ryddhau arfau o'r fath. |
| **Bentham, Jeremy** | Jeremy Bentham, athronydd, economegydd a diwygiwr cymdeithasol (1748-1832). Datblygodd y ddamcaniaeth sy'n cael ei galw'n Iwtilitariaeth Gweithredoedd. Datblygodd yr egwyddor iwtilitariaeth neu egwyddor yr hapusrwydd mwyaf i helpu pobl i fod yn hapus. Mae'n dweud bod gweithred yn gywir os yw'n cynhyrchu'r hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl. Roedd Bentham hefyd wedi dyfeisio'r calcwlws hedonig fel modd o fesur pleser. |
| **calcwlws hedonig** | Y meini prawf y mae Iwtilitariad Gweithredoedd yn eu defnyddio i fesur pleser ac i benderfynu a yw gweithred yn gywir neu beidio. Dyma saith maen prawf Bentham: sicrwydd – pa mor sicr ydych chi y bydd yr hapusrwydd yn digwydd? Hyd – am ba hyd y mae'r hapusrwydd yn para? Maint – faint o bobl y mae'r hapusrwydd yn effeithio arnynt? Dwysedd – pa mor gryf yw'r hapusrwydd? Purdeb – pa mor rhydd o boen yw'r hapusrwydd? Agosrwydd – pa mor agos o ran amser yw'r pleser ar gyfer y rhai sy'n ei brofi? Cyfoeth – at faint mwy o bleser y bydd hyn yn arwain? |
| **egwyddor defnyddioldeb** | Datblygodd Bentham yr egwyddor iwtilitariaeth neu egwyddor yr hapusrwydd mwyaf, sy'n nodi bod gweithred yn gywir os yw'n cynhyrchu'r 'hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl'. |
| **egwyddor niwed** | Egwyddor a gafodd ei chreu gan John Stuart Mill. Dadleuodd mai atal niwed i eraill yw'r unig reswm dros ddefnyddio grym ar aelod o gymuned wâr, a hynny yn erbyn ei ewyllys. |
| **hapusrwydd** | Y term sy'n cael ei ddefnyddio gan Iwtilitariaid i ddisgrifio pleser sy'n 'dda'. |
| **Iwtilitariaeth Gweithredoedd** | Ffurf ar Iwtilitariaeth sy'n gysylltiedig â Bentham, ac sy'n trin pob sefyllfa foesol yn unigryw. Mae pob 'gweithred' yn cael ei hystyried yn gywir neu'n anghywir yn ôl y canlyniadau y mae'n eu cynhyrchu. Roedd Bentham yn tybio y dylid chwilio am bleser ac osgoi poen. |
| **Iwtilitariaeth Rheolau** | Damcaniaeth Iwtilitariaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion cyffredinol neu reolau ymddygiad; safbwynt sy'n gysylltiedig â J. S. Mill. Wrth ddefnyddio'r egwyddor iwtilitariaeth – yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl – mae Iwtilitariaid Rheolau yn credu ei bod yn bosibl llunio rheolau cyffredinol, yn seiliedig ar brofiadau'r gorffennol, a fyddai'n helpu i gadw'r egwyddor hon. Byddai rheolau tebyg i 'parchwch eiddo pobl eraill' neu 'peidiwch â dwyn' yn helpu pobl i gadw'r egwyddor iwtilitariaeth, ac felly dylid ufuddhau iddynt. |
| **Mill, J. S.** | John Stuart Mill (1806-1873), athronydd, economegydd gwleidyddol, gwas sifil ac Aelod Seneddol Prydeinig. Roedd yn feddyliwr rhyddfrydol dylanwadol yn y 19eg ganrif. Roedd yn Iwtilitariad, ac yn dilyn damcaniaeth foesegol a gafodd ei datblygu gan Jeremy Bentham (ei fentor). Fodd bynnag, roedd ei ffurf ar Iwtilitariaeth yn wahanol iawn i ffurf Bentham, a hynny mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, roedd yn credu bod ansawdd y pleser sy'n cael ei gyhyrchu gan weithred yn fwy pwysig na maint y pleser. Yn ail, yn wahanol i Bentham, a oedd yn Iwtilitariad Gweithredoedd, mae'n ymddangos ei fod yn Iwtilitariad Rheolau. |

| | |
|---|---|
| **perthynoliaeth** | Y safbwynt nad oes unrhyw normau cyffredinol yn bodoli, ond y dylai gweithred gael ei barnu'n gywir neu'n anghywir yn ôl yr amgylchiadau cymdeithasol, diwylliannol neu unigol sy'n berthnasol i bob sefyllfa; un o bedair egwyddor weithredol Fletcher. |
| **pleserau is** | Term a oedd yn cael ei ddefnyddio gan J. S. Mill i wahaniaethu rhwng ffurfiau gwahanol ar hapusrwydd. Mae pleserau is yn bleserau israddol; maent yn bleserau'r corff ac yn bodloni angen y corff am ddŵr, bwyd, cwsg, ac ati. Roedd yn credu bod ansawdd yr hapusrwydd sy'n cael yn ei gynhyrchu gan weithred yn fwy pwysig na maint yr hapusrwydd. |
| **pleserau uwch** | Term a oedd yn cael ei ddefnyddio gan J. S. Mill i wahaniaethau rhwng ffurfiau gwahanol ar hapusrwydd. Mae pleserau uwch yn bleserau rhagorach ac yn bleserau'r meddwl: gweithgareddau deallusol, myfyrdod ysbrydol, ac ati. Maent yn well pleserau na phleserau is. Roedd yn credu bod ansawdd yr hapusrwydd sy'n cael ei gynhyrchu gan weithred yn fwy pwysig na maint yr hapusrwydd. |

| CYFLWYNIAD I ATHRONIAETH CREFYDD: GEIRFA | |
|---|---|
| **THEMA 1 : DADLEUON DROS FODOLAETH DUW – ANWYTHOL** | |
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **achos effeithiol** | Yr hyn sy'n achosi i newid a mudiant ddechrau a stopio. Mewn nifer o achosion, hyn, yn syml, sydd yn peri i rywbeth ddigwydd. |
| ***a posteriori*** | Ar sail profiad; yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â dadl, er enghraifft y ddadl gosmolegol, sy'n seiliedig ar brofiad neu dystiolaeth empirig. |
| **Aquinas, Sant Thomas** | Thomas Aquinas, offeiriad Dominicaidd o'r 13eg ganrif (1224-1274) sydd, yn gyffredinol, yn cael ei ystyried fel athronydd a diwinydd mwyaf dylanwadol yr Eglwys Gatholig. Mae'n enwog yn bennaf oherwydd ei weithiau *Summa Theologica,* lle mae'n crynhoi pum dadl (Y Pum Dull) dros fodolaeth Duw, a *Summa Contra Gentiles.* |
| **atchwel anfeidraidd** | Cadwyn o achosion neu ddilyniant rhesymu na all fyth ddod i ben. |
| **bodau** | Nid dim ond bodau dynol, ond unrhyw beth sydd â phriodwedd. |
| **bodau angenrheidiol** | Bodau sydd, os ydynt yn bodoli, yn methu peidio â bodoli; bodau nad ydynt yn ddibynnol ar unrhyw fod arall ar gyfer eu bodolaeth. |
| **bodau amodol** | Bodau sy'n dibynnu ar rywbeth arall ar gyfer eu bodolaeth. Mae ganddynt y briodwedd nad oes rhaid iddynt fod, neu y gallent fod wedi bod yn wahanol. |
| **Craig, William Lane** | William Lane Craig (1949- ), un o hyrwyddwyr agwedd Kalam yr oes fodern ar y Ddadl Gosmolegol dros fodolaeth Duw. |
| **dadl** | Set o ddatganiadau lle mae un ohonynt (y casgliad) yn cael ei ategu neu ei awgrymu gan y gweddill (y rhagosodiadau). |
| **dadl anthropig** | Dadl deleolegol sy'n honni bod natur wedi cael ei chynllunio ymlaen llaw i ddiwallu anghenion bodau dynol. |
| **dadl anwythol** | Dadl sydd wedi'i llunio ar ragosodiadau a allai fod yn wir, ac sy'n dod i gasgliad rhesymegol bosibl ac argyhoeddiadol. |
| **dadl deleolegol** | Dadl dros fodolaeth Duw sy'n seiliedig ar arsylwad o ddyluniad a diben y byd. |
| **dadl gosmolegol** | Dadl dros fodolaeth Duw sy'n seiliedig ar fodolaeth y bydysawd; yn cael ei chysylltu fel arfer â chysyniadau Aquinas o ran mudiant, achosiaeth ac amodoldeb. |
| **dadl Kalam** | Ffurf ar y ddadl gosmolegol sy'n seiliedig ar y syniad bod gan y bydysawd ddechrau mewn amser. |
| **dadleuon cronnus** | Casgliad o ddadleuon sydd, o'u rhoi at ei gilydd, yn cyflwyno achos cryfach na phan fydd y dadleuon yn cael eu gosod ar eu pen eu hunain. |
| **detholiad naturiol** | Mecanwaith allweddol mewn esblygiad. Dyma'r egwyddor lle mae pob amrywiad bach, os yw'n ddefnyddiol, yn cael ei gadw, a'r nodwedd yn cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. |

| | |
|---|---|
| **dyluniad deallus** | Y safbwynt bod achos deallus (nad yw'n cael ei bennu) yn gyfrifol am rai o nodweddion penodol y bydysawd. |
| **egwyddor o reswm digonol** | Mae rhyw fath o esboniad, sy'n hysbys neu'n anhysbys, yn bodoli ar gyfer popeth. |
| **empiriaeth** | Y safbwynt mai sail bwysicaf gwybodaeth yw profiad. |
| **esthetig** | Yn ymwneud â harddwch. |
| ***ex nihilo*** | Ymadrodd Lladin sy'n golygu "allan o ddim". Mae'n cyfeirio at y gred nad oedd Duw wedi defnyddio unrhyw ddeunydd a oedd eisoes yn bodoli pan greodd y byd. |
| **Leibniz, Gottfried Wilhelm** | Gottfried Wilhelm Leibniz (1646-1716), athronydd a mathemategydd o'r Almaen, o'r 17eg/18fed ganrif, y mae ei egwyddor o reswm digonol yn cefnogi'r dadleuon cosmolegol ynghylch bodolaeth Duw. |
| **mewnfodol** | Sy'n bodoli neu sy'n parhau; mewn diwinyddiaeth, mae'n cyfeirio at ymwneud Duw â'r greadigaeth. |
| **mudiant** | Yn Null Cyntaf Aquinas yn y ddadl Gosmolegol, mae'n cyfeirio at y broses lle mae gwrthrych yn cael ffurf newydd. |
| **Paley, William** | William Paley (1743-1805), o'r 18fed ganrif, clerigwr (Archddiacon Caerliwelydd) ac athronydd o Loegr, sy'n enwog am gydweddiad yr Oriadurwr, sy'n ffurfio rhan o'r ddadl deleolegol dros fodolaeth Duw. |
| **pwrpas** | Y rheswm pam mae rhywbeth yn bodoli neu'n cael ei wneud. |
| ***qua*** | Gair Lladin sy'n golygu 'yn unol â' neu 'sy'n ymwneud â'. |
| **tebygolrwydd** | Y tebygrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd neu ei fod yn wir. |
| **Tennant, Fredrick Robert** | Fredrick Robert Tennant (1866-1957), athronydd o Loegr yn yr 19eg/20fed ganrif, a ddatblygodd ffurfiau ar ddadleuon esthetig i ddod i gasgliad bod dylunydd deallus yn bodoli wnaeth greu'r bydysawd. Yn ei gyfrol, *Philosophical Theology*, mae hefyd yn hyrwyddo ffurf ar yr egwyddor anthropig (er nad oedd wedi defnyddio'r term ei hun) i gefnogi ei ddadleuon dros fodolaeth Duw. |
| **trefn a rheoleidd-dra** | Nodwedd allweddol y mae'r ddadl deleolegol dros fodolaeth Duw yn seiliedig arni – sef bod trefn a rheoleidd-dra yn ffenomenau arsylladwy o fewn y bydysawd y mae'n bosibl eu profi, sy'n arwain at y casgliad fod hon yn nodwedd fwriadol gan ryw fod deallusol sy'n gyfrifol am brosesau'r bydysawd. |
| **theistiaeth glasurol** | Cred mewn duwdod personol, creawdwr popeth sy'n bodoli, sydd ar wahân i'r greadigaeth honno, ac sy'n cynnal a chadw'r bydysawd. |
| **theistig** | Yr hyn sy'n ymwneud â Duw. |

| THEMA 2 : DADLEUON DROS FODOLAETH DUW – DIDDWYTHOL | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **Anselm, Sant** | Sant Anselm o Gaergaint (tua 1033-1109); ffurfiodd y ddadl ontolegol sy'n dangos sut roedd yn bosibl deall bodolaeth Duw ar sail rheswm yn unig. |
| ***a priori*** | Heb brofiad neu cyn cael profiad; yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â dadl, er enghraifft y ddadl ontolegol, sy'n seiliedig ar wybodaeth a gafwyd yn annibynnol ar brofiad neu cyn cael profiad. |
| **bod hollol berffaith** | Mae hyn yn gysylltiedig â chysyniad Anselm o fodolaeth angenrheidiol y bod mwyaf perffaith y gellir ei ddychmygu, h.y. Duw, yn ei ddadl ontolegol. |
| **bodau angenrheidiol** | Bodau sydd, os ydynt yn bodoli, yn methu peidio â bodoli; bodau nad ydynt yn ddibynnol ar unrhyw fod arall ar gyfer eu bodolaeth. |
| **dadl ddiddwythol** | Dadl lle mae'n rhaid bod y casgliad yn wir os yw'r rhagosodiadau yn wir. |
| **dadl ontolegol** | Dadl o blaid bodolaeth Duw yn seiliedig ar y cysyniad o natur bodoli. |
| **Descartes, René** | René Descartes (1596-1650); roedd wedi hyrwyddo rheswm fel y sail fwyaf dibynadwy ar gyfer gwybodaeth a dadansoddiad, ac yn defnyddio dull amheuaeth fel modd o ddarganfod gwirionedd metaffisegol. |
| **dirfodol** | Ym ymwneud â bodolaeth. |
| **ffydd** | Cred gref neu ymddiriedaeth yn rhywbeth neu rywun. |
| **Gaunilo** | Yn byw yr un adeg â Sant Anselm, roedd wedi beirniadu'r ddadl ontolegol drwy ddefnyddio gwrth-ddadl 'yr ynys fwyaf perffaith'. |
| **hanfod** | Natur anhepgor rhywbeth. |
| **hollalluog** | Y nodwedd o allu gwneud popeth. Mae rhai athronwyr yn eithrio'r gallu i wneud yr hyn sy'n rhesymegol amhosibl. |
| **hollwybodus** | Y nodwedd o wybod popeth am bob peth, gwirioneddol a phosibl. |
| **honiad** | Rhywbeth sy'n ychwanegu at ein cysyniad o'r pwnc. |
| **Kant, Immanuel** | Immanuel Kant (1724-1804); athronydd o'r Almaen, a beirniad y ddadl ontolegol, a ddefnyddiodd y ddadl foesol i ddadlau dros fodolaeth Duw a bywyd ar ôl marwolaeth. |
| **Malcolm, Norman** | Roedd Norman Malcolm (1911-1990) wedi dadlau dros ffurf ar y ddadl ontolegol a oedd yn seiliedig ar ddiffinio Duw fel bod anghyfyngedig, a daeth i'r casgliad bod Duw yn bodoli o reidrwydd. |
| **prawf** | Y dystiolaeth sy'n cefnogi'r ffaith, y syniad neu'r gred. |
| **priodwedd** | Natur neu gymeriad. |

| THEMA 3 : HERIAU I GRED GREFYDDOL – PROBLEM DRYGIONI A DIODDEFAINT | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **amddifadrwydd** | Amddifadu neu absenoldeb rhywbeth a ddylai fod yno; term a gafodd ei ddefnyddio mewn theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Awstin – mae drygioni yn cael ei weld fel absenoldeb daioni. |
| **Awstin, Sant** | Sant Awstin (tua 354-430) – Esgob Cristnogol cynnar Hippo (Gogledd Affrica). Tad yr Eglwys Fore, a gafodd dröedigaeth i Gristnogaeth yn gymharol hwyr yn ei fywyd. Ffigwr deallusol mawr a fu'n gyfrifol am ffurfio'r hyn sy'n cael ei dderbyn bellach yn uniongrededd Cristnogol o ran cred a moeseg. Mae ei weithiau enwog yn cynnwys *Cyffesion* a *Dinas Duw.* |
| **creu eneidiau** | Cysyniad yn nhraddodiad theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Irenaeus sy'n disgrifio sut mae dioddefaint yn helpu bodau dynol i ddatblygu'n foesol (o fod 'yn ddelw' o Dduw i fod 'yn debyg' iddo – gweler Genesis 1:26). |
| **cyfiawnhad eschatolegol** | Mae'n golygu y bydd popeth yn cael ei wneud yn eglur neu'n cael ei 'gyfiawnhau' ar ddiwedd amser neu adeg yr '*eschaton*'. |
| **daioni eilradd** | Daioni moesol sy'n ganlyniad i ymateb i ddrygioni, e.e. trugaredd. |
| **drygioni** | Yr hyn sy'n arwain at ddioddefaint; yr hyn sy'n foesol groes i ddaioni. |
| **drygioni moesol** | Digwyddiadau lle mae gweithredoedd cyfrifol gan fodau dynol yn achosi dioddefaint neu niwed, e.e. rhyfel. |
| **drygioni naturiol** | Digwyddiadau sy'n cael eu hachosi gan natur ac sy'n arwain at ddioddefaint, ond nad oes gan fodau dynol fawr ddim rheolaeth, neu ddim rheolaeth o gwbl, drostynt, e.e. daeargrynfeydd. |
| **ewyllys rydd** | Y gallu i wneud penderfyniadau nad ydynt yn cael eu pennu gan achosion blaenorol neu gan ymyrraeth ddwyfol. |
| **Mackie, J. L.** | J. L. Mackie (1917-1981), athronydd o Awstralia o'r 20fed ganrif, sy'n enwog am greu'r triawd anghyson fel mynegiant ar gyfer problem glasurol drygioni. |
| **Paul, Gregory S.** | Gregory S. Paul (1954- ), arsylwr diwinyddol a phalaeontolegydd o'r 21ain ganrif, a ddywedodd fod pwysau ystadegol swm y dioddefaint sy'n cael ei brofi gan blant yn herio'r ddealltwriaeth Gristnogol ynghylch Duw trugarog y greadigaeth. |
| **pellter epistemig** | Pellter gwybodaeth. Ymadrodd a ddefnyddiodd John Hick wrth ddatblygu theodiciaeth Irenaeus i gyfeirio at bellter y wybodaeth rhwng Duw a dynoliaeth, sydd felly'n caniatáu i fodau dynol ddewis yn rhydd. |
| **penderfyniad am yr enaid** | Cysyniad yn nhraddodiad theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Awstin sy'n disgrifio sut mae dioddefaint yn helpu bodau dynol i ddewis p'un ai i gyflawni daioni (gan ddewis y llwybr y dewisodd Duw ar eu cyfer) neu i gyflawni drygioni (gan felly wrthod y cynllun a oedd gan Dduw ar gyfer y ddynoliaeth). |
| **Rowe, William** | William Rowe (1931-2015), athronydd o America o'r 20fed/21ain ganrif, a ddywedodd fod pwysau'r dystiolaeth o ddioddefaint yn y byd yn profi na allai Duw fodoli. |

| | |
|---|---|
| **theistiaeth glasurol** | Cred mewn duwdod personol, creawdwr popeth sy'n bodoli, sydd ar wahân i'r greadigaeth honno ac sy'n cynnal a chadw'r bydysawd. |
| **theodiciaeth** | Cyfiawnhad dros gyfiawnder Duw, o ystyried bodolaeth drygioni. |
| **theodiciaeth sy'n seiliedig ar un Awstin** | Dadl yn seiliedig ar Genesis a'r Cwymp. Mae drygioni yn cael ei achosi gan fodau sydd wedi eu creu, nid gan Dduw. Mae ymateb pobl i ddrygioni, a chynllun achub Duw, yn pennu eu tynged. Cyfeirir at hyn yn aml fel penderfyniad am yr enaid. |
| **theodiciaeth sy'n seiliedig ar un Irenaeus** | Mae presenoldeb drygioni yn fwriadol ac yn helpu pobl i dyfu a datblygu. Cyfeirir at hyn yn aml fel creu eneidiau. |

| THEMA 4 : PROFIAD CREFYDDOL | |
|---|---|
| **TERM** | **DIFFINIAD** |
| **anhraethol** | Yn herio mynegiant, y tu hwnt i eiriau, yn annisgrifiadwy, yn anniffiniadwy. |
| **asgetigiaeth** | Gwadu pleserau'r corff yn fwriadol er mwyn sicrhau boddhad ysbrydol. |
| **byrhoedlog** | Gall y profiad fod yn fyrhoedlog, ond mae'r effeithiau yn tueddu i bara'n llawer hirach na'r profiad ei hun. |
| **carismataidd** | Grwpiau gwahanol o Gristnogion sy'n chwilio am brofiad crefyddol ecstatig, sy'n aml yn cynnwys siarad mewn tafodau. |
| **cred sylfaen** | Cred nad oes angen mwy o brawf i'w chefnogi. |
| **cyfriniol** | Profiadau neu fyfyrdod systematig, sy'n achosi ymwybyddiaeth ddwysach o'r dwyfol neu o fod eithaf. |
| **Franks Davis, Caroline** | Caroline Franks Davis – ysgolhaig a ddangosodd sut mae'n bosibl herio dilysrwydd profiadau ysbrydol. |
| **geirwir** | Pan mae gwrthrych y profiad yn bodoli mewn gwirionedd fel realiti ac nid yn y dychymyg yn unig. |
| **goddefol** | Lle nad derbynnydd/derbynwyr y profiad cyfriniol sy'n peri iddo ddigwydd – mae'r union foment yn cael ei rheoli gan fod neu rym sydd y tu allan i ewyllys y derbynnydd. |
| **goddrychol** | Sydd â'i ffynhonnell yn y meddwl. |
| **gweledigaeth** | Rhywbeth sy'n cael ei weld, ond nid drwy olwg arferol. |
| **James, William** | William James (1842-1910), seicolegydd o America o'r 19eg/20fed ganrif, sy'n enwog am ei waith yn ymchwilio i brofiadau crefyddol a chyfriniaeth. |
| **mewnfodol** | Sy'n bodoli neu sy'n parhau; mewn diwinyddiaeth mae'n cyfeirio at ymwneud Duw â'r greadigaeth. |
| **monyddiaeth** | Y safbwynt mai dim ond un realiti sylfaenol sy'n bodoli. |
| **noëtig** | Cael gwybodaeth arbennig neu fewnwelediadau nad yw'n bosibl eu cael drwy'r deall yn unig; fel arfer o ganlyniad i brofiad cyfriniol. |
| **nwminaidd** | Profiad o'r cysegredig; rhywbeth sy'n hollol ar wahân i'r byd naturiol a thu hwnt i'r deall. |
| **Otto, Rudolf** | Mae Rudolf Otto (1869-1937), yn ei gyfrol *Syniad y Sanctaidd (The Idea of the Holy)*, wedi diffinio'r cysyniad o'r cysegredig fel rhywbeth sy'n nwminaidd. |
| **Sufiaeth** | Y traddodiad cyfriniol o fewn Islam. |
| **tröedigaeth** | Newid cyfeiriad neu droi o gwmpas. |
| **trosgynnol** | Mae ganddo fodolaeth y tu allan i'r bydysawd materol. |

| | |
|---|---|
| **ymwneud â disgrifiadau** | Yn ymwneud â disgrifiadau o brofiadau cyfriniol fel sail ar gyfer herio eu dilysrwydd. |
| **ymwneud â'r goddrych** | Yn ymwneud â goddrych (sef derbynnydd) profiadau cyfriniol, fel sail ar gyfer herio eu dilysrwydd. |
| **ymwneud â'r gwrthrych** | Yn ymwneud â gwrthrych (sef yr hyn a brofwyd) profiadau cyfriniol, fel sail ar gyfer herio eu dilysrwydd. |